

Profi'r
Tywyllwch
Cymru

Cynllun Brandio a Marchnata

CYNHYRCHWYD AR GYFER



GAN



Girl & Boy anturus
MEDIA COLLECTIVE

A ARIENNIR GAN



CYNLLUN BRANDIO A MARCHNATA

CLEIENT: AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO AR RAN AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG AC AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

RHIF PROSIECT: 8329
ADOLYGIAD: REV 3

Rhif adolygiad	Dyddiad adolygu	Paratowyd gan	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
0	22/02/2016	GK/LW/AW/TW/TR	JW	22/02/2016
1	21/03/2016	GK/LW/AW/TW/TR	JW	21/03/2016
2	04/05/2016	GK/LW/AW/TW/TR	JW	04/05/2016
3	30/11/2016	GK/LW/AW/TW/TR	JW	30/11/2016
Diweddariadau Parhaus gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol				

CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol	1
1 Cyflwyniad	3
1.1 Briff a dull	3
1.2 Gweledigaeth, cenhadaeth a nodau	4
2 cynnyrch sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd - manteision cystadleuol	7
2.1 Cyflwyniad a chrynodeb	7
2.2 Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	7
2.3 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	8
2.4 Parc Cenedlaethol Eryri	9
2.5 Cynnyrch presennol – dadansoddiad SWOT	9
3 Cynnig cynnyrch 'cystadleuol'	11
3.1 Cyflwyniad a chrynodeb	11
3.2 Mentrau rhyngwladol a chenedlaethol	11
3.3 Parciau Cenedlaethol eraill yn y DU	13
3.4 Parciau Awyr Dywyll Rhyngwladol yn y DU	13
3.5 Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	14
3.6 Cadw	14
3.7 Cyfoeth Naturiol Cymru	15
3.8 Mentrau 'Awyr Dywyll' a thwristiaeth eraill	15
4 Ymwelwyr	16
4.1 Cyflwyniad a chrynodeb	16
4.2 Ymwelwyr	16
5 Datblygu'r cynnyrch	25
5.1 Cyflwyniad a chrynodeb	25
5.2 Proses	25
5.3 Gweithgareddau ac anturiaethau i'w datblygu	25

5.4	'Anturiaethau Nos - pecyn cymorth ar gyfer Masnach' - llawlyfr masnach twristiaeth	26
6	Datblygu'r brand	27
6.1	Cyflwyniad a chrynodeb	27
6.2	Diffinio'r brand	27
6.3	Dylunio, hunaniaeth a defnydd	28
7	Strategaeth farchnata	32
7.1	Cyflwyniad a chrynodeb	32
7.2	Amcanion strategol	32
8	Rhaglennu a chyfryngau marchnata	36
8.1	Cyflwyniad a chrynodeb	36
8.2	Rhaglennu	36
8.3	Cyfryngau marchnata	38
8.4	Cynllun gweithredu	43
9	Monitro a Gwerthuso	46
9.1	Cyflwyniad a chrynodeb	46
9.2	Diogelu'r Dyfodol	46
9.3	Allbynnau, canlyniadau, effeithiau a gosod targedau	46
ATODIADAU		48
	Atodiad A: Gweithdy Brandio 9fed Rhagfyr 2015 - Nodiadau	48
	Atodiad B: Calendrau Rhaglennu – Blwyddyn 1 – Digwyddiadau Presennol	55
	Atodiad C: Calendrau Rhaglennu – Cysylltiadau Tair Blynedd i CC	57
	Atodiad D: Gwefan 'Profi'r Tywyllwch': Strwythur a chynnwys arfaethedig	63

TABLAU

Tabl 1 - cynllun gweithredu	43
Tabl 2 - calendr rhaglennu - blwyddyn 1 - digwyddiadau sy'n bodoli eisoes	55
Tabl 3 - calendr rhaglennu - 2016 - Blwyddyn o Antur	57
Tabl 4 - calendr rhaglennu - 2017 - Blwyddyn o Chwedlau	59
Tabl 5 - calendr rhaglennu - 2018 - Blwyddyn y Môr	61

FFIGYRAU

Ffigwr 1 - proses a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r gyfres o weithgareddau ac anturiaethau	25
Ffigwr 2 - logo 'Profi'r Tywyllwch - Cymru' (credyd: Girl & Boy Studio)	30
Ffigwr 3 - gwefan 'Profi'r Tywyllwch - Cymru' (credyd: Girl & Boy Studio)	30
Ffigwr 4 - enghraifft ddelweddol 'Profi'r Tywyllwch - Cymru' (credyd: Girl & Boy Studio)	31
Ffigwr 5 - Enghraifft ddelweddol 'Profi'r Tywyllwch - Cymru' (credyd: Girl & Boy Studio)	31

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ariannwyd y Cynllun Brandio a Marchnata gan Croeso Cymru, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu Strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf. Cyhoeddwyd y briff gan Grŵp Llywio a ffurfiwyd o blith cynrychiolwyr o Awdurdodau'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru, a ffurfiwyd y Cynllun ar y cyd ag aelodau o'r Grŵp Llywio gan dîm o ymgynghorwyr yn cael eu harwain gan TACP, gan gynnwys arbenigwyr treftadaeth a thwristiaeth Gareth Kiddie Associates ac asiantaeth brandio a dylunio Girl & Boy Studio.

Mae'r Cynllun yn disgrifio sut mae'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn cydweithio i ddatblygu rhaglen newydd gyffrous o waith sy'n manteisio ar eu dyfnder o brofiad o weithio ar fentrau ymwelwyr sy'n ymwneud â'r 'awyr dywyll'. Mae'r cynllun yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol sy'n ceisio cysylltu gwerthfawrogiad ymwelwyr o'r sêr a'u rhan mewn gweithgareddau 'antur nos', gydag awydd i gymryd camau ymarferol i ddiogelu a gwella ein hawyr dywyll - er budd bywyd gwyllt a chenedlaethau'r dyfodol. Yn wir, y genhadaeth wrth symud ymlaen yw tynnu partneriaid allweddol eraill i mewn a gweithio tuag at sefydlu Cymru fel 'Gwlad Awyr Dywyll' gyntaf y byd.

Mae'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru mewn sefyllfa dda i gyflawni'r weledigaeth a chenhadaeth hon. Mae ganddynt eisoes statws rhyngwladol, yn rhinwedd y ffaith bod dau allan o ddim ond deg o Warchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol y byd wedi'u lleoli yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Ychwanegwch at y gymysgedd drysorfa o leoliadau eiconig, hanes cryf o gyflawni digwyddiadau a gweithgareddau 'awyr dywyll', seilwaith sefydledig ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a chefnogaeth weithredol gan y fasnach dwristiaeth, ac mae llawer i adeiladu arno.

Fodd bynnag, mae hefyd ddiddordeb cynyddol mewn awyr dywyll mewn mannau eraill, sy'n arwain at nifer o 'gyrchfannau awyr dywyll' sy'n cynyddu'n gyflym yn y DU ac yn fyd-eang, ac mae llawer ohonynt hefyd yn chwilio am ddynodiadau a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae rhai o'r rhain wedi eu hir sefydlu, ac mae tystiolaeth i awgrymu eu bod eisiau ymestyn eu darpariaeth awyr dywyll ar hyd llinellau tebyg i'r hyn a gynigir gan y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mae ansawdd y brandio a hyrwyddo'r cyrchfannau eraill hefyd yn gwella'n sylweddol, er bod hynny yn cychwyn o sail isel iawn. Er gwaethaf hyn, mae'n ymddangos bod ffenestr o gyfle ar gael i Barciau Cenedlaethol Cymru i adeiladu ar bartneriaethau cadarn gyda sefydliadau eraill yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau - gan eu dwyn at ei gilydd trwy eu perswadio o fanteision gweithio gyda'i gilydd ar lefel genedlaethol.

Y cynulleidfaoedd targed ar gyfer y fenter hon yw ymwelwyr i'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, a busnesau twristiaeth sy'n gweithredu o fewn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r farchnad ymwelwyr eisoes wedi ei nodi'n fras gan Croeso Cymru fel 'anturiaethwyr annibynnol'. Roedd adolygiad o'r ystadegau ymwelwyr sydd ar gael ac ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y tîm ymgynghori yn golygu y bu'n bosibl mireinio'r cynulleidfaoedd ymwelwyr hyn ymhellach, a blaenoriaethu. O ganlyniad, daethpwyd i'r casgliad y dylai'r fenter ddechrau cael ei hanelu at 'Deuluoedd Anturus Egnïol' o'r farchnad ddomestig, ac yna, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy ganolbwyntio ar:

1. 'Anturiaethwyr heb deulu o'r farchnad ddomestig ;
2. 'Cyplau Anturus sy'n Darganfod Golygfeydd'; a
3. 'Cyplau Hŷn Anturus sy'n Darganfod Diwylliant ' o'r farchnad ddomestig a rhai marchnadoedd tramor.

Fel rhan o brosiect ehangach a ariennir gan Croeso Cymru, bu'r ymgynghorwyr arweiniol hefyd yn datblygu'r cynnyrch i ymwelwyr - cyfres o 'weithgareddau ac anturiaethau' awyr dywyll ar gyfer y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, eu partneriaid a'r fasnach dwristiaeth gysylltiedig. O'r cychwyn cyntaf, cynigodd yr ymgynghorwyr y

dylai'r cynnyrch adeiladu a datblygu ar weithgareddau oedd wedi eu sefydlu eisoes gyda 'ffocws ar seryddiaeth', gan ehangu'r cwrpas i gynnwys gweithgareddau ac anturiaethau nos oedd â chyswllt gyda diddordeb ymwelwyr mewn diwylliant, natur a chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Ymgynghorwyd â sefydliadau masnach ynghyd ag ystod eang o arbenigwyr, a lluniwyd 'rhestr hir' cyn creu rhestr fer derfynol o 15 o weithgareddau ac anturiaethau ar gyfer eu datblygu ymhellach. Allbwn allweddol y broses hon oedd cymhathu gwybodaeth ar ffurf Llawlyfr Masnach Twristiaeth 'Anturiaethau Nos'.

Cyn cychwyn y prosiect roedd y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ar wahanol gyfnodau o ddatblygiad eu cynnyrch a brand 'awyr dywyll' – nodwyd bod gwaith Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi dangos arweiniad cryf yn hyn o beth. Felly wrth ddatblygu brand a hunaniaeth Cymru gyfan, y bwriad oedd gweithio i adeiladu ar y llwyddiant hwn, heb dynnu sylw oddi wrth yr hyn sydd eisoes yn ei le. Gyda hyn mewn golwg, penderfynodd yr ymgynghorwyr yn gynnar iawn yn y comisiwn gynnig hunaniaeth brand 'edrych a theimlo' yn hytrach na dyfeisio rhywbeth gydag ID corfforaethol cryf. Mae'r enw a ddewiswyd 'Profi'r Tywyllwch – Parciau Cenedlaethol Cymru' yn fwriadol ddisgrifiadol a'r marc brandio 'clwstwr' i fynd gydag ef (gweler y cloriau blaen a chefn), wedi ei gynllunio i leoli'r Parciau'n ddaearyddol mewn perthynas â'i gilydd, ynghyd â chynllun lliw sy'n cyfateb i gylch bywyd sêr. Hefyd cadwyd yr hunaniaeth brand yn fwriadol syml, gan ganiatáu defnydd o ddelweddaueth ffotograffig o'r ansawdd uchaf ar y cyd â disgrifwyr is-bennawd bachog byr sy'n cysylltu'n gryf â'r gweithgarwch a bortreadir yn y delweddau.

Rhoddwyd strategaeth ar gyfer datblygu'r brandio a marchnata yn ei le, ac mae hyn yn cynnwys cyfres o 11 o amcanion strategol. Yng nghyd-destun y strategaeth, y bwriad yw datblygu cyfres o gyfryngau marchnata i hyrwyddo'r cynnyrch 'anturiaethau nos'. Bydd hyn yn cynnwys cymysgedd o ddigwyddiadau newydd a rhai wedi'u hail-becynnu, gwefan newydd, defnydd cynyddol o sianelau cyfryngau cymdeithasol, ffilm fer newydd, a manion marchnata eraill i ddilyn fel bo cyllid yn caniatáu. Agwedd allweddol ar y strategaeth yw ymrwymiad y diwydiant ymwelwyr drwy ddefnyddio'r Llawlyfr Masnach Twristiaeth 'Anturiaethau Liw Nos' a recriwtio busnesau twristiaeth fel 'Arloeswyr' i helpu'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru drwy weithredu mewn rôl lysgenhadol. Unwaith y bydd rhaglen genedlaethol wedi'i sefydlu yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd yr hyblygrwydd yn yr hunaniaeth brand 'Profi'r Tywyllwch' yn galluogi datblygiad onglau newydd ar awyr dywyll - gan helpu i gyrraedd ymhellach a thargedu cynulleidfaoedd mewn ffyrdd arloesol, a gweithredu i ddiogelu'r brand i'r dyfodol ar yr un pryd.

Yn olaf, mae'r ymgynghorwyr wedi awgrymu rhai paramedrau ar gyfer monitro a gwerthuso'r prosiect. Gobeithir yn wir y bydd y prosiect yn llwyddiant ac y bydd y broses o weithio ar draws y tri Pharc Cenedlaethol yn cryfhau gallu'r Grŵp Llywio i weithio tuag at gyflawni nodau tymor hir y rhaglen 'Profi'r Tywyllwch - Cymru', heb son am sefydlu Cymru fel Gwlad Awyr Dywyll gyntaf y byd.

1 CYFLWYNIAD

1.1 BRIFF A DULL

Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Eryri, Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro yn gweithio gyda'i gilydd fel Parc Cenedlaethol Cymru i ddatblygu rhaglen ar y cyd sy'n ymwneud ag 'awyr dywyll'.

Ffurfiwyd Grŵp Llywio o blith staff Parciau Cenedlaethol Cymru i ddatblygu'r prosiect. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys:

- Hannah Buck – Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- Michel Regelous - Swyddog Polisi Cadwraeth, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- Ruth Coulthard - Rheolwr Datblygu Cyllid, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Richard Tyler – Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Gethin Davies - Swyddog Ecosystemau a Newid yn yr Hinsawdd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Ifor Gwyn – Prif Swyddog Polisi, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ym mis Tachwedd 2015 gyda chymorth cyllid gan Croeso Cymru ac o dan y teitl 'Awyr Dywyll: Parciau Disglair', comisiynodd Parciau Cenedlaethol Cymru dîm o ymgynghorwyr i ddatblygu a chyflwyno pecyn o weithgareddau ymgynghori yn ymwneud â'r fenter.

Arweiniwyd y tîm ei gan TACP (UK) Ltd ac yr oedd yn cynnwys: Gareth Kiddie Associates (GKA); Girl & Boy Studio; ac Anturus Media Collective.

Roedd y briff yn nodi'r elfennau craidd canlynol a oedd i'w datblygu a'u cyflenwi:

- Cynllun Brandio a Marchnata.
- Cyfres o weithgareddau ac anturiaethau yn ymwneud â'r thema.
- Ffilm fer i hyrwyddo Parciau Cenedlaethol yng Nghymru fel cyrchfannau 'awyr dywyll' i ymwelwyr ac i ysbrydoli'r fasnach dwristiaeth i gymryd rhan.
- Llawlyfr rhyngweithiol digidol i gefnogi ymgysylltiad masnach a datblygu cynnyrch.

Rhoddwyd comisiwn ar wahân ond cysylltiedig i ddatblygu gwefan ar gyfer y prosiect i Girl & Boy Studio.

Gweithiodd yr ymgynghorwyr yn agos gyda staff o Barciau Cenedlaethol Cymru i ddatblygu pob elfen o'r comisiwn. Yn benodol, arweiniodd yr ymgynghorwyr weithdai rhyngweithiol ar gerrig milltir allweddol, sef:

- 'Gweithdy Brandio' a gynhaliwyd yn Swyddfa Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn Noc Penfro ar 9^{fed} Rhagfyr 2015. Roedd y gweithdy yn ymwneud â gosod y sylfaen ar gyfer datblygu brandio i'r prosiect ac fe'i mynychwyd gan staff allweddol o bob un o'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Gweler y nodiadau o'r gweithdy hwn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.
- 'Gweithdy Gweithgareddau' a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar 29^{ain} Ionawr 2016. Roedd y gweithdy yn ymwneud â datblygu ac adeiladu syniadau ar gyfer cyfres o weithgareddau ac anturiaethau y gellid eu rhedeg 'ar ôl iddi dywyllu' ym Mharciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mynychwyd y gweithdy gan staff o'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, sefydliadau partner a busnesau twristiaeth. Gweler y nodiadau o'r gweithdy hwn yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

Yn ychwanegol at y gweithdai, ymgwymerodd yr ymgynghorwyr ag ymchwil gyda sefydliadau partner allweddol, busnesau twristiaeth a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â datblygu gweithgareddau 'ar ôl iddi dywyllu' o fewn y Parciau Cenedlaethol a dargedwyd a/neu sydd â diddordeb mewn gwneud hynny. Gweler prif ganfyddiadau'r ymchwil yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli elfen 'Cynllun Brandio a Marchnata' y comisiwn. GKA a arweiniodd ar ei baratoi, ac mae'n tynnu ar ganlyniadau'r Gweithdy Brandio, ymchwil wedi'i dargedu, ac ymgynghori â sefydliadau partner allweddol, gan gynnwys Croeso Cymru.

1.2 GWELEDIGAETH, CENHADAETH A NODAU

O fewn y briff roedd ymdeimlad cryf o'r cyfeiriad y byddai'r cleient yn hoffi gweld y prosiect yn mynd. Yn ystod y comisiwn, bu'n bosibl i'r ymgynghorwyr adeiladu ar hyn a mireinio'r syniadau fel y gellid sicrhau gweledigaeth glir a rennir ar gyfer y prosiect, ynghyd â datganiad cenhadaeth a set o nodau wedi'u diffinio'n dda. Nodir y rhain isod:

GWELEDIGAETH

DATGANIAD GWELEDIGAETH

Ein gweledigaeth wrth symud tua'r dyfodol yw cynnal y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru fel mannau lle mae'n ymwelwyr yn gwerthfawrogi'r sêr ac yn cymryd rhan mewn anturiaethau nos- gan helpu i ddatblygu cymunedau mwy cynaliadwy a chodi ymwybyddiaeth o'r angen i ddiogelu a gwella ein 'hawyr dywyll', er budd cenedlaethau'r dyfodol ac er budd y bywyd gwyllt y nos, y planhigion a'r anifeiliaid, sy'n gwneud ein 'lle i enaid gael llonydd' yn gartref iddynt.

CENHADAETH

Datblygu Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn llwyddiannus fel llefydd 'Awyr Dywyll' ac i weithio gyda phartneriaid eraill i sefydlu Cymru fel 'Gwlad Awyr Dywyll' gyntaf y byd.

Daw pwynt cychwyn y prosiect 'Profi'r Tywyllwch – Cymru' o'r profiad o ymweld â Pharc Cenedlaethol yng Nghymru a *gweld y sêr ar ôl iddi dywyllu*.

Mae hyn oherwydd bod golygfa llawer o bobl o awyr y nos o'u cartref yn cael ei chuddio gan lygredd golau, tra bod y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru i gyd yn cynnig cyfleoedd i fwynhau awyr dywyll oherwydd eu lleoliadau. Mae Parciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog wedi eu dynodi'n Warchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol ac mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gweithio gyda sefydliadau partner yn lleol i hyrwyddo mwclis o Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll.

Yr hyn sy'n anodd i'w ddal mewn geiriau yw'r profiad y mae pobl yn ei gael o edrych i fyny ar yr awyr ar noson glir mewn man sy'n rhydd o lygredd golau - lle gall y sêr a godidowgrwydd llawn y Llwybr Llaethog gael eu gwerthfawrogi. Os ydych yn ychwanegu i'r gymysgedd hon leoliad sydd â harddwch naturiol, bywyd gwyllt yn ystod y nos, treftadaeth ac arwyddocâd diwylliannol, heddwch a llonyddwch, yn ogystal â seilwaith twristiaeth sefydledig - yna mae amodau gwirioneddol wych ar gyfer profiad llawn o 'awyr dywyll'.

Ffactor allweddol arall yn natblygiad y prosiect yw'r consyrn sydd angen i ni i gyd ei gael ynghylch pam fod 'awyr dywyll' mor bwysig. Nid yn unig y mae llygredd golau yn cuddio ein gallu i weld y sêr, ond mae'n gwastraffu ynni

sydd yn ei dro yn gallu arwain at lefelau uwch o gynhyrchu nwyon tŷ gwydr, y profwyd eu bod yn cael effaith niweidiol sylweddol ar iechyd dynol¹ ac a all gael effeithiau andwyol sylweddol ar fywyd gwyllt², yn enwedig rhywogaethau nosol arbennig - un o'r union bethau y sefydlwyd Parciau Cenedlaethol yn y DU i'w gwarchod a'u diogelu.

Yn ystod y comisiwn, ymgynghorodd yr ymgynghorydd gydag ystod o sefydliadau sydd eisoes yn annog ymwelwyr i fwynhau'r awyr dywyll yn y Parciau Cenedlaethol. Daw un sgwrs i'r cof yn arbennig, sef un gydag Andy Middleton Cyfarwyddwr Sefydlo TYF³.

Meddai Andy:

'Nid yw pobl yn gyffredinol yn dod atom am brofiad sy'n newid bywyd, ond mae ein gweithgareddau yn llwyfan ar gyfer gwireddu'r cyfle hwnnw ... weithiau rydym yn nôl blanced a mynd allan i edrych ar y sêr. Pan fyddwn yn edrych i fyny ar y sêr (yn absenoldeb llygredd golau), mae ganddynt ansawdd nwmenaid. ⁴ Gall pobl gael eu heffeithio gymaint gan y profiad, fel eu bod yn dewis newid y ffordd y maent yn edrych, ac yna maent yn dechrau gweld.'

Rydym yn gwybod bod y profiad o syllo i fyny ar y sêr yn gallu newid meddyliau ac felly ymddygiad. Mae'r profiad hwn a allai fod yn un trawsffurfiol eisoes wrth wraidd y prosiect. Rydym yn gwybod hefyd fod gan y Parciau Cenedlaethol rôl allweddol o ran sicrhau dulliau arloesol o ymdrin â chynaliadwyedd.

Felly'r casgliad yw y gall, a dylai'r fenter hon symud y tu hwnt i fwynhad syml o awyr dywyll (er bod hyn yn parhau i fod yn nod canolog y prosiect), oherwydd fod ganddi'r capasiti i fod yn llawer mwy. Mae gan y prosiect y capasiti i fod â ffocws clir a diamwys ar gynaliadwyedd.

Ar un lefel, mae 'Profi'r Tywyllwch' wrth ymweld â Pharc Cenedlaethol yng Nghymru a 'gweld sêr ar ôl iddi dywyllu' nawr sy'n galluogi i bob un o'n hymwelwyr wneud eu cysylltiad eu hunain gyda'r bydysawd a phrofi ymdeimlad o barchedig ofn mewn mannau o olygfeydd hardd, heddwch a llonyddwch, a chyfoeth diwylliannol - llefydd ble *ar ôl iddi dywyllu, mae mythau a chwedlau'r dirwedd yn dianc i fyny i'r awyr.*

Ar lefel arall, mae 'Profi'r Tywyllwch' wrth ymweld â Pharc Cenedlaethol yng Nghymru â'r gallu i fod yn antur nos! I'n teuluoedd, ac yn enwedig i'n hymwelwyr iau, mae'n gyfle i greu profiad bythgofiadwy o 'fod ar eu traed ar ôl amser gwely', ac i oedolion sydd yn 'anturiaethwyr', bydd heriau a gweithgareddau newydd i roi cynnig arnynt yn y nos.

¹ 'Yn 2009, galwodd Cymdeithas Feddygol America am ymdrech genedlaethol i ddeall effeithiau llygredd golau ar bobl. Erbyn hyn mae tystiolaeth sylweddol sy'n dangos bod golau yn y nos yn gallu tarfu ar gynhyrchiad melatonin, yr hormon ymennydd, yn y corff, sydd yn ei dro yn cynyddu'r risg o ddatblygu canser y fron. Mae golau yn y nos hefyd yn arwain at nosweithiau aflonydd a straen seicolegol'. Nodwyd gan Ymgyrch Cymdeithas Seryddol Prydain ar gyfer Awyr Dywyll yn eu dogfen 'Lighting Guidelines document produced for the Northumberland International Dark Sky Park.'

² Am fewnwelediad sboreiddiol iawn i'r effaith y gall goleuadau nos ei chael ar fywyd gwyllt, ymwelwch â thudalennau Gwe [Commission for Dark Skies](#) ar y pwnc.

³ Mae [TYF](#) yn gwmni gweithgareddau awyr agored yn Nhyddewi, Sir Benfro sydd â chenhadaeth o ' greu anturiaethau sy'n newid bywyd, gyda chyffyrddiad ysgafn ar natur, sy'n ffocysu golwg a sgiliau pobl ifanc ar gyfer y dyfodol ac yn helpu sefydliadau gydag arloesi a chynaliadwyedd. Rydym yn chwarae i'r blaned.'

⁴ "The numinous is experienced as a profound sense of awe, as well as connecting to nature a mysterious creative power in life" Mick Collins – The Unselfish Spirit.

PRIF NODAU

- Hyrwyddo'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, i gynulleidfaoedd targed, fel y lleoliadau gorau i fwynhau awyr dywyll.
- Helpu busnesau twristiaeth sydd wedi'u lleoli a/neu sy'n gweithio yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru i wireddu potensial datblygu gweithgareddau awyr dywyll gyda'r nos ac yn ystod y nos, gan ddarparu cyfleoedd newydd yn y gaeaf ac yn y cyfnod 'ysgwydd', rhwng y tymor brig ac allfrig.
- Codi ymwybyddiaeth ymysg ymwelwyr, busnesau twristiaeth a thrigolion y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru o effeithiau niweidiol llygredd golau a'u hannog i leihau llygredd golau ble bynnag a phryd bynnag y gallant.

2 CYNNYRCH SY’N CAEL EI GYNNIG AR HYN O BRYD - MANTEISION CYSTADLEUOL

2.1 CYFLWYNIAD A CHRYNODEB

Mae'r adran hon yn adolygu'r 'cynnyrch' sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl sy'n ymweld â Pharciau Cenedlaethol Cymru ac i'r diwydiant twristiaeth. Cymhathwyd y wybodaeth o drafodaethau gyda staff y Parc Cenedlaethol, presenoldeb mewn digwyddiadau 'Awyr Dywyll', a thrwy adolygiad o'r wybodaeth sydd ar gael ar y we.

Y casgliad yw bod y 'fantais gystadleuol' sy'n cael ei mwynhau ar hyn o bryd gan y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn deillio o'r ffactorau canlynol:

- **Statws rhyngwladol** - mae dau allan o ddim ond 10 o Warchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol yn y byd wedi'u lleoli yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.
- **Lleoliadau eiconig i fwynhau awyr dywyll** - llefydd gyda harddwch naturiol, tirweddau amrywiol, cyfoeth o fywyd gwyllt yn ystod y nos, treftadaeth ac arwyddocâd diwylliannol, heddwch a llonyddwch.
- **Hanes dda o gyflenwi** – ateb y galw gan gwsmeriaid am ddigwyddiadau a gweithgareddau 'awyr dywyll' yn llwyddiannus.
- **Cefnogaeth weithredol gan y fasnach dwristiaeth** - busnesau twristiaeth yn ymgysylltu'n dda er mwyn helpu i gyflenwi.
- **Brandio presennol yn ddeniadol** – gan gynnwys delweddau nos syfrdanol.

Awgryma'r ffactorau uchod fod gan y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru y gallu i weithio o sefyllfa o gryfder cymharol.

2.2 PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fu'r corff arweiniol yng Nghymru o ran datblygu mentrau sy'n gysylltiedig ag 'awyr dywyll'. Mae'r cyfan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol (dynodwyd felly gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol yn 2012), y pumed dynodiad o'r fath ledled y byd, a'r cyntaf yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae'r cynnig cynnyrch 'awyr dywyll' yn cael ei hyrwyddo a'i farchnata yn bennaf drwy'r canlynol:

- Gwefan cyrchfan Bannau Brycheiniog www.breconbeacons.org sy'n cynnwys adran gyda thudalennau wedi'u neilltuo i [Edrych ar y sêr](#) o dan y pennawd 'Dewch i ddarganfod ein awyr dywyll' a phennawd testun 'Dewch am ddiwrnod, ond arhoswch am noson. Mae ein Parc Cenedlaethol yn Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol ...'. Ar y dudalen glanio [Edrych ar y sêr](#), ceir ffilm fer drawiadol a phoblogaidd iawn gyda pheth ffotograffiaeth oediog syfrdanol.

- Mae taflen hyrwyddo ar gael ac ynddi ceir map o ble i fynd i edrych ar y sêr ym Mannau Brycheiniog, ynghyd â gwybodaeth am beth y gallwch ei weld yn awyr y nos, bod yn seryddwr, rhai ffeithiau anarferol a rhyfeddol, awgrymiadau edrych ar y sêr a negeseuon cynaliadwyedd.
- Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys tudalennau [Facebook](#) a chyfrifon [Twitter](#) Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a ddefnyddir i ledaenu gwybodaeth am edrych ar y sêr a digwyddiadau cysylltiedig eraill.
- Mae cyfrif [Flickr](#) Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei ddefnyddio'n aml gan ffotograffwyr i rannu eu delweddau 'awyr dywyll' ac mae sianel [You Tube](#) yn cynnwys 'Fideo Awyr Dywyll Bannau Brycheiniog' ynghyd â ffilmiau eraill a gynhyrchir gan neu sy'n ymwneud â digwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd yn ardal Bannau Brycheiniog.

Mae'r cynnig cynnyrch presennol i drigolion, ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol, a busnesau twristiaeth sy'n gweithredu yn y Parc fel yr hysbysebwyd drwy wefan cyrchfan Bannau Brycheiniog yn cynnwys:

- Gwybodaeth am ddynodiad y Parc fel Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol, gan gynnwys negeseuon ynghylch cynaliadwyedd - lleihau llygredd golau a diogelu bywyd gwylt nosol.
- Cyngor ar ble i fynd edrych ar y sêr – y deg 'man uchaf'.
- Gwybodaeth am beth i'w weld yn awyr y nos - cyflenwir drwy lwytho i lawr 'Map Awyr Gyda'r Nos' misol am ddim a chalendr a phhecyn gwybodaeth 'Canllaw i Awyr Nos Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awyr Dywyll Cymru'.
- Dolenni i dudalennau gwe cymdeithasau seryddol lleol a phlanetariwm, eu digwyddiadau a gwefannau awyr dywyll eraill.
- Cysylltiadau i adnoddau defnyddiol eraill gan gynnwys 'Pecyn Digwyddiad' y BBC 'Stargazing Live'.
- 'Digwyddiadau Edrych ar y sêr' y Parc Cenedlaethol a rhai a arweinir gan bartneriaid.
- Rhaglen 'Llysgenhadon Awyr Dywyll' - yn cynnwys hyfforddiant ac achrediad dros 50 o fusnesau twristiaeth.

2.3 PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gartref i chwe Safle Darganfod Awyr Dywyll (fel y dynodwyd gan Bartneriaeth Darganfod Awyr Dywyll y DU), o ddim ond ychydig dros 100 yn y DU.

Ar hyn o bryd, mae'r cynnig cynnyrch 'awyr dywyll' yn cael ei hyrwyddo a'i farchnata yn bennaf drwy'r canlynol:

- Mae gwefan cyrchfan Ymweld â Sir Benfro www.visitpembrokeshire.com gydag un dudalen wedi'i neilltuo i 'Edrych ar y sêr yn Sir Benfro'. (Fodd bynnag, mae diffyg cysylltiad ar drefniant y wefan sy'n ei gwneud yn anodd dod ar draws y dudalen 'yn ddamweiniol'. Mae hyn yn anfantais bendant oherwydd gall llawer o ymwelwyr posibl sydd â diddordeb ac sy'n defnyddio'r wefan fethu â gweld y dudalen o ganlyniad.)
- Mae sianelau cyfryngau cymdeithasol Ymwelwch â Sir Benfro ([Facebook](#) a [Twitter](#)) hefyd yn cael eu defnyddio i ledaenu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Mae'r cynnig cynnyrch presennol i drigolion ac ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys:

- 'Digwyddiadau Edrych ar y Sêr' a drefnwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn eu Stad Ystangbwl (gweler Adran 3.5 isod)
- Gweithdai Astroffotograffiaeth a gynhelir gan y ffotograffydd lleol Drew Buckley.

2.4 PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Parc Cenedlaethol Eryri yw'r lle diweddaraf i gael ei ddynodi yn Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol (dynodwyd felly gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol ar 4 Rhagfyr 2015), y 10^{fed} dynodiad o'r fath yn y byd.

Ar hyn o bryd, mae'r cynnig cynnyrch 'awyr dywyll' yn cael ei hyrwyddo a'i farchnata yn bennaf drwy'r canlynol:

- Gwefan y Parc Cenedlaethol ei hun o dan y teitl 'Gofalu' a thudalen glanio o'r enw '[Gweld Sêr](#)' ynghyd â sianelau cyfryngau cymdeithasol y Parc ei hun - [Facebook](#) (dwieithog), [Facebook](#) (cymraeg) a [Twitter](#).
- Mae taflen wybodaeth o'r enw 'Gweld Sêr' hefyd ar gael - mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'r dynodiad yn ei olygu i Eryri a'i thrigolion.
- Taflen fechan wedi ei blygu i faint cerdyn credyd sy'n ganllaw hawdd i lywio o gwmpas awyr y nos.

Mae'r cynnig cynnyrch presennol i drigolion ac ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys:

- Gwybodaeth am ddynodiad y Parc fel Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.
- 'Canllaw i'r Sêr' ar-lein.
- '5 Lle i Wyllo'r Sêr' ynghyd â map Google ar-lein.
- Gwybodaeth am oleuadau o ansawdd gwell ac effeithiau llygredd golau ar y gallu i weld sêr, iechyd dynol a bioamrywiaeth.
- Peth arweiniad (cyfyngedig) ar sut y gallai busnesau twristiaeth ddatblygu gweithgareddau 'awyr dywyll' fel cyfleoedd busnes.
- Enghreifftiau o sut mae'r sêr wedi dylanwadu ar ein treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru.
- Oriel luniau gyda ffotograffau a dynnwyd gan ffotograffwyr lleol ac eraill
- Geirfa o enwau Cymraeg ar gyfer sêr, cytserau a galaethau.
-

2.5 CYNNYRCH PRESENNOL – DADANSODDIAD SWOT

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn mynychu'r 'Gweithdy Brandio' fyfyrir ar statws cyfredol eu cynnig cynnyrch 'awyr dywyll' a'r ffordd y cafodd ei frandio, o safbwynt pob Parc Cenedlaethol unigol. Gweler isod grynodeb byr o'r pwyntiau allweddol a wnaed:

CRYFDERAU

Mae amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y nos eisoes yn cael eu cyflwyno ar draws y tri Pharc Cenedlaethol. Mae gan bob Parc ddynodiad 'awyr dywyll', dau gyda statws rhyngwladol cydnabyddedig; Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Mae gan y ddau Barc (APCBB ac APCE) frandiau presennol cryf yn eu lle a rhai asedau hyrwyddol rhagorol - delweddau ffotograffig (APCBB).

GWENDIDAU

Dim brandio yn ei le (APCAP), lefel isel o ymwybyddiaeth o frand (APCE), diffyg cyllideb farchnata yn arwain at anallu i gyflawni addewid y brand (APCBB).

CYFLEOEDD

Datblygu'r brandio a chynnig profiad dyfnach (APCAP), codi ymwybyddiaeth o ddynodiad a brandio awyr dywyll (APCE), gweithio gyda'i gilydd i gyrraedd cynulleidfa ryngwladol (APCBB).

BYGYTHIADAU

Sefydliadau eraill yn datblygu eu mentrau awyr dywyll eu hunain e.e. Ymddiriedolaeth Genedlaethol (APCAP), arwyddocâd corfforaethol Brand Awdurdod Parc Cenedlaethol presennol (APCE), aros fel arweinydd brand/gwanhau brand (APCBB).

SYLWADAU

Efallai nad yw'n syndod mai dim ond mewn ychydig o feysydd yr oedd pob un o'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru fel un, yn enwedig gan fod y fenter *Profi'r Tywyllwch - Cymru* yn un o'r troeon cyntaf y mae'r tri Pharc wedi dod ynghyd i weithio ar brosiect ar y cyd. Fodd bynnag, os yw'r prosiect i lwyddo fel menter wirioneddol genedlaethol, mae gwir angen cynyddu cydweithio/cyfuno adnoddau yn y dyfodol.

3 CYNNIG CYNNYRCH 'CYSTADLEUOL'

3.1 CYFLWYNIAD A CHRYNODEB

Mae'r adran hon yn adolygu'r cynnig cynnyrch 'cystadleuaeth' i dwristiaid ac i'r diwydiant twristiaeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Oherwydd natur helaeth a chwmpas y gystadleuaeth bosibl, fodd bynnag, mae'r ffocws yn bennaf ar y mentrau hynny a ddatblygwyd o fewn y DU. Mae'r wybodaeth wedi ei chymathu o nifer cyfyngedig o ymgynghoriadau wedi'u targedu, a thrwy adolygiad o'r wybodaeth sydd ar gael ar y we.

Y casgliad yw bod y 'gystadleuaeth' yn datblygu'n gryf mewn nifer o ffyrdd:

- **Diddordeb cynyddol mewn awyr dywyll** – gyda'r nifer o lefydd sy'n chwilio am ddynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol yn cynyddu'n gyflym.
- **Mentrau cenedlaethol tebyg eraill a sefydlwyd eisoes** – gan, er enghraifft, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- **Tystiolaeth bod mentrau eraill hefyd yn ymestyn eu darpariaeth** – i gynnwys gweithgareddau nos arall sy'n canolbwyntio ar fywyd gwylt nosol, gweithgareddau corfforol (e.e. teithiau cerdded yn y nos) a digwyddiadau diwylliannol (e.e. adrodd straeon)
- **Ansawdd y cyflwyniad, brandio a hyrwyddo yn gwella yn sylweddol** – gan symud i ffwrdd oddi wrth yr ymagwedd fwy 'gwyddonol' i fod yn fwy cyfeillgar i ymwelwyr/teuluoedd.
- **Sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth** – i fynd ar drywydd y nod o sefydlu Cymru fel Gwlad Awyr Dywyll gyntaf y byd.

Awgryma'r ffactorau uchod fod y 'gystadleuaeth' yn cynyddu'n gyflym o ran maint ac ansawdd y cynnig cynnyrch.

3.2 MENTRAU RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL

Sefydlwyd y [Gymdeithas Awyr Dywyll Rhyngwladol](#) (IDA) i gadw a gwarchod ein awyr nos. Mae rhaglen 'Llefydd Awyr Dywyll' yr IDA yn cynnig pum math o ddynodiad, gyda dau yn berthnasol:

- [Parciau Awyr Dywyll Rhyngwladol](#) - Mae Parciau yn fannau mewn perchnogaeth gyhoeddus neu breifat a warchodir ar gyfer cadwraeth naturiol, sy'n gweithredu goleuadau awyr agored da ac yn darparu rhaglenni awyr dywyll ar gyfer ymwelwyr.
- [Gwarchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol](#) - Mae gwarchodfeydd yn cynnwys parth "craidd" tywyll a amgylchynir gan ymylon poblog, lle gweithredir rheolaethau polisi i ddiogelu tywyllwch y craidd.

Yn ôl gwefan yr IDA, mae 31 o Barciau Awyr Dywyll Rhyngwladol ar hyn o bryd, 24 ohonynt yn UDA. Mae tri yn y DU: Galloway Forest, Keilder Water a Forest Park, a'r dynodiad diweddaraf yn 2015, Cwm Elan (Gweler isod).

Mae'r cynnyrch rhyngwladol 'ar lawr gwlad' yn ôl pob tebyg yn llawer mwy cyffrous a diddorol i'r ymwelwyr na'r ffordd y caiff ei bortreadu ar wefan yr IDA. Mae hyn yn ddi-os oherwydd bod y tudalennau wedi cael eu llwytho i

fyny gan y sefydliad enwebu, yn amlach na pheidio rhyw fath o asiantaeth y llywodraeth sy'n cyfateb i'n Parciau Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae patrwm pendant i'r ffordd y mae pob Parc Awyr Dywyll yn cael ei hyrwyddo sy'n cynnwys gwybodaeth am y broses enwebu, effeithiau llygredd golau, ble a sut i fynd edrych ar y sêr, ynghyd â ffotograffau trawiadol o awyr y nos mewn lleoliadau eiconig ar draws y byd.

Yn siomedig iawn, nid oedd unrhyw wefannau yn cyfeirio at brosiectau rhyngwladol y tu allan i'r Deyrnas Unedig a oedd werth ymchwilio iddynt ymhellach. I gwblhau'r gwaith ymchwil, efallai y byddai'n werth mynd un cam ymhellach i weld a oes 'gwefannau cyrchfan' cysylltiedig sy'n fwy 'cyfeillgar i ymwelwyr' ac sy'n rhoi golwg well ar sut mae prosiectau awyr dywyll yn cael eu marchnata a'u hyrwyddo dramor.

Mae deg o Warchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol dynodedig, tair ohonynt yn y DU; Parc Cenedlaethol Exmoor, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r dynodiad diweddaraf yn Rhagfyr 2015, Parc Cenedlaethol Eryri.

Ymddengys bod y cynnyrch a gynigir yn y safleoedd dynodedig rhyngwladol yn y DU yn gymharol dda, yn enwedig Galloway Forest a Kielder Water a Forest Park. Fodd bynnag, er gwaethaf gwaith yr IDA, nid oes unrhyw dystiolaeth wirioneddol i ddangos y bu llawer o gydweithio, rhannu syniadau ac adnoddau ar draws dynodiadau rhyngwladol yn y DU yn gyffredinol.

Mae Partneriaeth Darganfod Awyr Dywyll y DU http://www.darkskydiscovery.org.uk/about_us.html yn rhwydwaith o sefydliadau amgylcheddol a seryddiaeth genedlaethol. Mae Rhwydwaith cynyddol y Bartneriaeth o dros 100 o Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll <http://www.darkskydiscovery.org.uk/dark-sky-discovery-sites/map.html> yn anelu at nodi'r mannau gorau mewn ardaloedd gwledig a threfol i weld awyr y nos yn y DU.

Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll yw llefydd sydd i ffwrdd oddi wrth y gwaethaf o unrhyw lygredd golau lleol, sy'n darparu golygfeydd da o'r awyr, gyda mynediad cyhoeddus da, gan gynnwys tir caled ar gyfer cadeiriau olwyn ac yn gyffredinol yn hygyrch ar bob adeg.

Mae dwy raddfa o dywyllwch: Safleoedd 'Orion'. Ar y safleoedd hyn, mae'r saith prif seren yng nghlwfstr y gaeaf, Orion, i'w gweld gyda'r llygad noeth. Yn nodweddiadol, mae hyn yn golygu i ffwrdd oddi wrth, neu'n cael ei gysgodi rhag, goleuadau llachar megis goleuadau stryd, goleuadau diogelwch neu oleuadau car. Safleoedd 'Llwybr Llaethog'. Ar y safleoedd hyn mae'r Llwybr Llaethog i'w weld gyda'r llygad noeth. Maent yn safleoedd llawer tywyllach, a geir mewn ardaloedd mwy gwledig yn unig.

Yn ôl gwefan y Bartneriaeth, mae 29 o Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll yng Nghymru ar hyn o bryd. O'r rhain mae 11 yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, saith yn PCAP a phedwar yn PCBB. Enwebwyd y safleoedd gan nifer cyfyngedig o sefydliadau gweithgar; 15 gan Awyr Dywyll Cymru, pump gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, tri gan PCAP, dau gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (neu sefydliad partner), dau gan Hosteli Unigeddau'r Elenydd (sy'n gysylltiedig â'r YHA).

Mae'r Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll a enwebwyd gan [Awyr Dywyll Cymru](#) o ddiddordeb, yn enwedig gan eu bod i gyd o fewn Parc Rhanbarthol y Cymoedd, union i'r de o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac maent yn cael eu hyrwyddo ar wefan y [Cymoedd](#) dan 'pethau i'w gweld a'u gwneud' yn y Cymoedd.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi yma oherwydd y trothwy meini prawf llawer is ar gyfer dynodiad safle i 'Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll', mae perygl bod y safleoedd hyn yn cael eu hystyried gan y cyhoedd fel rhai sydd 'ar yr un lefel' â'r dynodiadau rhyngwladol, a asesir yn llawer mwy llym - o bosibl yn arwain at wanhau'r profiad a'r neges. Mae angen ymdrin â hyn yn ofalus wrth ddatblygu'r prosiect.

3.3 PARCIAU CENEDLAETHOL ERAILL YN Y DU

Mae tudalennau gwe [Awyr Dywyll](#) Parciau Cenedlaethol y DU yn cynnwys nifer o Barciau Cenedlaethol yn y DU sydd eisoes wedi datblygu mentrau awyr dywyll neu sydd yn y broses o geisio ennill achrediad naill ai'n rhyngwladol neu'n genedlaethol. O'r mentrau hyn, ymddengys mai Parciau Cenedlaethol Exmoor a Pharciau Cenedlaethol Gweunydd Swydd Efrog / Dyffrynnoedd Swydd Efrog sydd fwyaf gweithgar.

3.3.1 PARC CENEDLAETHOL EXMOOR

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Exmoor fel Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol gyntaf Ewrop. Mae tudalennau gwe [Edrych ar y sêr](#) Parc Cenedlaethol Exmoor yn cynnwys:

- [‘Llawlyfr poced’](#) Awyr Dywyll cyfleus a thwt
- Peth delweddau anhygoel.
- Ffilm hynod.
- Gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd ar y gweill, gan gynnwys; ‘Awyr Dywyll Exmoor’, ‘Antur Fawr Gwersylla Teuluol’, ‘Darganfod Pryfed Tân Exmoor’, ‘Darganfod Ystlumod Exmoor’ a ‘Dunkery yng ngolau lleuad’!

3.3.2 PARCIAU CENEDLAETHOL GWEUNYDD SWYDD EFROG A DYFFRYNNOEDD SWYDD EFROG

Mae tudalennau gwe [Awyr Dywyll](#) Parc Cenedlaethol Gweunydd Swydd Efrog yn disgrifio'r cynnig presennol, sy'n cynnwys:

- [Gŵyl Awyr Dywyll](#) (15-21 Chwef 2016) – yn ddiddorol iawn, yn cael ei rhedeg ar y cyd â Pharc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog (sy'n cynhyrchu taflen hardd iawn [Edrych ar y sêr](#)).
- Gwybodaeth am ddigwyddiadau a gynhaliwyd gyda Chymdeithasau Seryddol Lleol gan gynnwys y [Starfest](#) flynyddol a gynhaliwyd ers 2001 ac sy'n digwydd o 4-7 Awst eleni.
- Digwyddiad [Creaduriaid y Nos](#) a gynhelir fel digwyddiad ‘amgen’ i Nos Galan Gaeaf ac sy'n cynnwys; crefftai i blant, teithiau cerdded mewn coedwig, adrodd straeon, hwyl cysgodion, ac edrych ar y sêr.
- Crynodeb ardderchog o 'aps' sydd ar gael ar gyfer pethau i'w gweld yn awyr y nos.

3.4 PARCIAU AWYR DYWYLL RHYNGWLADOL YN Y DU

Mae [Galloway Forest](#) yn hyrwyddo'r hyn mae'n ei gynnig drwy dudalennau gwe ar wefan Comisiwn Coedwigaeth yr Alban. Mae [‘Taflen Awyr Dywyll’](#) y gellir ei lawr lwytho, podcast gyda syniadau da a rhaglen [‘Digwyddiadau Awyr Dywyll’](#). (Nid yw'n ymddangos fod ‘Pecyn Croeso Edrych ar y Sêr’, a gafodd yr ymgynghorwyr gan Barciau Cenedlaethol Cymru, ar gael ar y wefan – mae hwn yn gyhoeddiad ardderchog).

Mae [Parc Awyr Dywyll Rhyngwladol Northumberland](#) yn hyrwyddo ei awyr dywyll drwy ei wefan ei hun. Ceir ffilm atyniadol, llawn gwybodaeth yn ogystal â thaflenni ffeithiau y gellir eu lawrlwytho – mae un o'r rhain yn rhoi canllaw ardderchog i [‘Oleuadau yn yr awyr agored’](#) sy'n ddefnyddiol iawn i awdurdodau cyhoeddus, twristiaeth a busnesau eraill, a thrigolion. Mae [Arsyllfa Kielder](#) ym Mharc Kielder Water & Forest, ac mae'n denu 24,000 o

ymwelwyr bob blwyddyn. Mae'r Arsyllfa yn cynnal rhaglen gynhwysfawr iawn o [Ddigwyddiadau](#) sy'n troi o amgylch edrych ar y sêr a gweithgareddau cysylltiedig yn bennaf.

Mae [Cwm Elan](#) yn hyrwyddo ei gynnig drwy ei wefan, gyda diweddariadau 'Awyr Dywyll' rheolaidd yn ei Gylchlythyr. Fodd bynnag, ymddengys mai'r grym y tu ôl i'r prosiect, yw [Elan Valley Astronomy](#) a redir gan Kris a Les Fry. Mae eu tudalennau Facebook werth ymchwilio ymhellach iddynt, gan eu bod yn llawn o weithgareddau - edrychwch ar y ffordd y maent yn gadael i'w dilynwyr wybod am eu llwyddiant i gael eu dynodi yn Barc Awyr Dywyll (sawl post o fis Gorffennaf 11^{eg} tan fis Gorffennaf 17^{eg} – rhowch 'hoffi' arnynt!). Maent hefyd yn cynnal digwyddiadau teuluol megis eu [Diwrnod Roced](#) fis Awst diwethaf a 'Taith Gerdded Cysawd yr Haul' y maent yn ei gweithio'i mewn i Wyl Gerdded Cwm Elan ym mis Medi.

Cafodd yr ymgynghorydd drafodaeth fer gyda Kris a Les. Roedd yn amlwg eu bod yn awyddus i weithio'n agos â'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru i hyrwyddo'r syniad o 'Gymru, y Genedl Awyr Dywyll gyntaf'.

3.5 YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fenter genedlaethol sy'n ymwneud â hyrwyddo awyr dywyll. Os edrychir ar 'Edrych ar y sêr' ar eu gwefan gwelir cyfres o fentrau gan gynnwys:

- ['Canllaw i Edrych ar y Sêr i Ddechreuwy'r'](#)
- ['Pethau i fynd â chi ar Daith Deuluol i Edrych Ar Y Sêr'](#)
- ['Ffeithiau syfrdanol i blant ynghylch edrych ar y sêr'](#)

Hefyd mae eu gwefan yn cyfeirio ymwelwyr at y ['Mannau Gorau i Edrych ar y Sêr'](#) ac un o'r safleoedd ymwelwyr y cyfeirir atynt yw Ystagbwll yn Sir Benfro. Siaradodd yr ymgynghorydd gyda Swyddog Addysg yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y Digwyddiad blynyddol 'Awyr Dywyll' a gynhelir yng Nghanolfan Ddysgu Awyr Agored Ystagbwll, a nododd fod y digwyddiad yn cynnwys Planetariwm (roedd yn gymylog!) a gwneud roced (gellir gweld lluniau ar dudalen [Facebook Ystagbwll](#)).

Dywedwyd bod y digwyddiad hwn yn boblogaidd iawn (120 o bobl yn bresennol y llynedd), yn enwedig gyda theuluoedd, rhai lleol yn bennaf (70% o'r gynulleidfa, yn ôl yr amcangyfrif). Hyrwyddwyd y digwyddiad drwy Facebook, cyfryngau cymdeithasol a chylchgrawn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bu cysylltu â Rhaglen 'Stargazing Live' y BBC hefyd yn fanteisiol iawn o ran hyrwyddo'r digwyddiad.

3.6 CADW

Mae Cadw yn rhedeg cyfres o [ddigwyddiadau edrych ar y sêr](#) yn eu safleoedd ac yn union cyn y Nadolig 2015 bu Cadw'n rhedeg ar fideo treigladau amser gwyh ['Dawel Nos dan y Sêr'](#). Datgelodd trafodaethau gyda Swyddog Digwyddiadau Cadw eu bod yn cynllunio saith neu wyth digwyddiad pellach eleni ac y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cynnal trafodaethau ynglŷn â chyfleoedd i gydweithio ar y rhain.

Mae un o'r digwyddiadau a gynlluniwyd ar fin cael eu cynnal ym Mhriordy Llanddewi Nant Hodni, wedi'i amseru i gyd-fynd â digwyddiad seryddol ac mae'n cael ei redeg ar y cyd â grŵp seryddiaeth lleol.

Datgelodd trafodaeth bellach bod Cadw hefyd yn ymwneud ag ystod o weithgareddau eraill ar ôl iddi dywyllu yn ei safleoedd gan gynnwys: Teithiau Cerdded Ystlumod, Nosweithiau Gwledda a 'Theithiau Cerdded Arswyd' a 'Theithiau Ysbryd' yn cael eu harwain gan gymeriad.

3.7 CYFOETH NATURIOL CYMRU

Siaradodd yr ymgynghorydd gyda'r Uwch Swyddog Cymunedau a Phartneriaethau CNC. Mae'r sefydliad wedi bod yn gweithio gyda'i staff yn fewnol i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwarchod 'awyr dywyll' ar draws ei ystadau. Ar y cyd ag Awyr Dywyll Cymru, bu'n cynnal digwyddiad yn ddiweddar yng Ngarwnant a'r bwriad yw cyflwyno'r digwyddiadau hyn yn ehangach.

Nodwyd bod CNC yn awyddus i ddefnyddio eu hystadau, yn enwedig eu coetiroedd, fel adnoddau ar gyfer mynediad, hamdden ac addysg, a bod ffocws ar 'awyr dywyll' yn rhoi catalydd iddynt ar gyfer eu gwaith yn y meysydd hyn.

Mynegwyd pryder y gallai'r weithred o ddynodi safleoedd 'awyr dywyll' mewn gwirionedd gael effaith cwbl groes i'r hyn a fwriadwyd, ac awgrymwyd y gallai ffocws ar greu safleoedd 'mynediad hawdd' i edrych ar y sêr weithredu fel 'byffer' i'r broblem bosibl hon. Nodwyd sefydlu Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll yn y Cymoedd (gweler adran 3.2 uchod) fel enghraifft dda o safleoedd oedd â'r gallu i dynnu pwysau oddi ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Hefyd nododd y Swyddog gyfres o brosiectau lefel gymunedol yng Nghymoedd De-ddwyrain Cymru a oedd yn dangos y brwdfrydedd presennol am bob peth 'awyr dywyll'. Nodwyd ['Llwybr Sêr' Bryn-y-Don](#) fel enghraifft o ddefnyddio ffyrdd newydd ac arloesol i leihau'r angen am oleuadau stryd mewn cymunedau.

Awgrymodd y Swyddog hefyd bod prosiectau twristiaeth o amgylch 'awyr dywyll', yn enwedig y rhai a ddatblygwyd gan y sector preifat, ar fin cynyddu'n sylweddol yn ei farn ef.

3.8 MENTRAU 'AWYR DYWYLL' A THWRISTIAETH ERAILL

[Cymdeithas Seryddol Prydain](#) (BAA) yw corff mwyaf y DU sy'n cynrychioli buddiannau pawb - seryddwyr a'r rhai nad ydynt yn seryddwyr - sy'n gwerthfawrogi prydferthwch awyr y nos ac yn ei werthfawrogi fel adnodd naturiol.

Sefydlwyd y [Comisiwn ar gyfer Awyr Dywyll](#) (CfDS) yn 1989 gan aelodau'r BAA a oedd yn pryderu ac a oedd eisiau gwrthweithio'r 'llacharedd awyr' cynyddol sydd wedi difetha awyr y nos dros Brydain ers yr 1950au. Mae gan CfDS yn enwedig beth gwybodaeth gefndirol ardderchog ynglŷn ag effaith andywol llygredd golau ar bobl a bywyd gwyllt.

Mae myrdd o fentrau a allai gael eu hamlygu. Isod ceir detholiad o dri sy'n rhoi enghreifftiau o farchnata; cyrchfannau rhyngwladol twristiaeth, ffenomen wybrennol, a darparwr llety lleol yng Nghymru.

Mae'r [Starlight Foundation](#) yn sefydliad rhyngwladol diddorol sydd ymysg pethau eraill yn hyrwyddo sefydlu ['Cyrchfannau Twristiaid Golau Sêr'](#) ardystiedig a ddiffinnir fel 'llefydd y gellir ymweld â hwy a nodweddir gan ansawdd rhagorol ar gyfer myfyrio ar awyr serenog a'r ymarfer o weithgareddau twristiaeth sy'n seiliedig ar yr adnodd hwn'. Un o'r cyrchfannau a enillodd ardystiad yw'r ['Awyr Arcadaidd'](#) yn Nova Scotia.

Cwmni o Brydain yw'r [Aurora Zone](#) sy'n trefnu gwyliau i gyrchfannau lle y gellir gweld yr *Aurora Borealis* o lety diddorol, gan gynnwys iglw gwyrdr!

Mae'r [Stargazers Retreat](#) ym Mannau Brycheiniog yn enghraifft wych o fusnes bach sydd wedi gwneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo ei leoliad fel lle gwyh i weld y sêr. Mae'r perchnogion wedi meddwl yn glir drwy anghenion eu hymwelwyr, ac wedi darparu offer a chynghor edrych ar y sêr drwy eu gwefan.

4 YMWELWYR

4.1 CYFLWYNIAD A CHRYNODEB

Mae'r adran hon yn adolygu'r hyn y mae'r data ymchwil sydd ar gael yn ei ddweud wrthym am natur ymwelwyr â Pharciau Cenedlaethol Cymru. Cymhathwyd y wybodaeth trwy'r wybodaeth a drosglwyddwyd gan y cleient, ymgynghoriad â staff Croeso Cymru, a gwaith ymchwil ychwanegol a wnaed drwy'r rhyngwyd.

Y casgliad yw bod y cynulleidfaoedd targed ar gyfer y prosiect hwn yn nhrefn blaenoriaeth fel a ganlyn:

- **Teulu Anturus Egnïol** - (o'r farchnad ddomestig), ar ddiwrnod (noson) allan, teithio tu allan i oriau brig, i lefydd/digwyddiadau penodol.
- **Anturiaethwyr heb deulu** - (o'r farchnad ddomestig) - aros am noson neu ddwy, mewn grŵp gyda ffrindiau eraill, teithio tu allan i oriau brig ac eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.
- **Cyplau Anturiaethwyr Darganfod Golygfeydd** - (o'r farchnad ddomestig a rhai marchnadoedd tramor) – teithio rywfaint o amgylch, eisiau ymweld â llefydd diarffordd.
- **Cyplau Hŷn yn Darganfod Anturiaethwyr Diwylliant** - (o'r farchnad ddomestig a rhai marchnadoedd tramor) – ar wyliau, yn chwilio am atyniadau hanesyddol, trefi a phentrefi diddorol, y ffordd leol o fyw a diwylliant lleol.

Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn awgrymu y dylid rhoi'r ffocws ar deuluoedd a phobl iau o'r farchnad ddomestig.

4.2 YMWELWYR

YMWELWYR Â CHYMRU

Ar ei gwefan, mae [Llywodraeth Cymru](#) yn darparu rhai ystadegau pennawd ynglŷn â thwrsitiaeth yng Nghymru:

- Yn 2014, roedd 10 miliwn o deithiau dros nos i Gymru gan drigolion Prydain Fawr (PF). Y gwariant cysylltiedig oedd £1,732 miliwn.
- Daeth 64% o'r ymwelwyr PF i Gymru ar wyliau, 28% i ymweld â ffrindiau neu berthnasau a 6% ar fusnes
- Mae arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr yn dangos bod ychydig o dan 90 miliwn o ymweliadau dydd yn cael eu gwneud i gyrchfannau yng Nghymru bob blwyddyn sy'n gyfystyr â gwariant o dros £2.5 biliwn.
- Denodd Cymru 932,000 o ymwelwyr rhyngwladol, yn gwario £368 miliwn yn ystod 2014
- Y 4 gwlad uchaf o ran cynhyrchu twristiaeth tramor i Gymru oedd Gweriniaeth Iwerddon (148,000), Ffrainc (111,000), yr Almaen (92,000) ac UDA (90,000)
- Roedd 37% o ymwelwyr rhyngwladol ar daith wyliau, 35% yn ymweld â ffrindiau neu berthnasau a 18% ar fusnes yn ystod 2013.

Mae Croeso Cymru yn cynnal nifer o arolygon ymwelwyr⁵ o dan y teitl 'Arolwg Ymwelwyr â Chymru' <http://gov.wales/statistics-and-research/wales-visitor-survey/?tab=previous&skip=1&lang=cy>. Cynhaliwyd y set ddiwethaf o arolygon yn ystod 2013. Caiff ymwelwyr eu categorio i dair marchnad benodol: Ymwelwyr DU sy'n Aros, Ymwelwyr Dydd ac Ymwelwyr Tramor.

Gwybodaeth berthnasol o'r arolygon sy'n ymwneud â **marchnad Ymwelwyr y DU sy'n Aros**:

- Cynnydd sylweddol mewn cymhelliant i ymweld ag atyniadau / manau penodol, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.
- Ar ôl 'y traeth', ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol yw'r ail reswm a grybwyllir amlaf dros ymweld â Chymru – yn berthnasol i draean (34%) o deithiau.
- 'Teulu Anturus Egnïol' ac 'Anturiaethwyr Cynteulu' sy'n cael eu denu fwyaf i Gymru. Y ddau segment Anturiaethwyr yw'r rhai mwyaf tebygol o ddigon o ymweld â Chymru, o gymharu â chyfran poblogaeth y DU y maent yn ei chynrychioli.

Gwybodaeth berthnasol o'r arolygon sy'n ymwneud â'r farchnad **Ymwelwyr Dydd**:

- Cynnydd sylweddol mewn gweithgareddau awyr agored. Mae'r cymhelliant i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn ystod taith dydd yng Nghymru/ i Gymru wedi codi o 12% yn 2011 i 23% yn 2013.
- Mae'r prif gymhelliant dros deithiau dydd yn gwahaniaethu'n fawr i ymwelwyr sy'n aros. Yn amlwg, y prif reswm mwyaf cyffredin dros gymryd taith diwrnod i Gymru yw 'i ymweld â llefydd / safleoedd hanesyddol / atyniadau penodol / golygfeydd'.
- Cestyll / atyniadau hanesyddol yw'r prif atyniadau ar gyfer teithiau dydd. Wedyn parciau gwledig / coedwigoedd.

Gwybodaeth berthnasol o'r arolygon sy'n ymwneud â'r farchnad **Ymwelwyr Tramor**:

- Cynnydd sylweddol mewn gweithgareddau awyr agored.
- Cymhelliant i ymweld â De Ddwyrain Cymru yn wahanol iawn i ranbarthau eraill o Gymru - mae'r cymhelliant i ymweld â llefydd o safleoedd / hanesyddol ayb.' (cymhelliant dros 85% o ymwelwyr) yn llawer uwch nag yng ngweddill Cymru (68%). Ar y llaw arall mae i fwynhau tirwedd / cefn gwlad / traeth' (56%) yn is na gweddill Cymru (71%), ac mae 'i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored' (19%) yn llawer is na gweddill Cymru (46%).
- Mae cestyll ac atyniadau hanesyddol yn arbennig o ddiddorol i ymwelwyr o dramor - yn uwch ymhlith cenhedloedd nad ydynt yn gyfarwydd â gweld safleoedd o'r fath yn eu gwlad eu hunain, yn enwedig Americanwyr!

Canfyddiadau cyffredin ar draws y tri sector:

- Dywedodd yr holl ymwelwyr y byddant yn dod yn ôl i Gymru am ragor.
- Eiriolaeth eithriadol o uchel dros Gymru – byddent yn argymhell ymweliad â Chymru i ffrind neu berthynas.

⁵ [Wales Visitor Survey 2013 Executive Summary](#), [Wales Visitor Survey 2013 Report – UK Staying Visitors](#), [Wales Visitor Survey 2013 Report – Overseas Visitors](#), [Visitor Information Needs Report](#).

Yn ddiddorol iawn, yn fwy diweddar comisiynodd Croeso Cymru [‘Arolwg Ymwelwyr Allfrig’](#)⁶ yn targedu Ymwelwyr y DU sy'n aros a rhai Dydd:

Gwybodaeth berthnasol o'r arolwg ymwelwyr 'allfrig' yn ymwneud â'r farchnad **Ymwelwyr y DU sy'n Aros**:

- Mae llawer o ymwelwyr sy'n aros wedi sôn bod well ganddynt ddod i Gymru y tu allan i'r tymor brig gan fod llety yn rhatach a/neu eu bod yn mwynhau'r heddwch.
- Mae'r cymhelliant ar gyfer ymweld ar gyfnod allfrig yn fwy penodol i bobl, digwyddiadau neu weithgareddau neilltuol. Ymddengys bod gan ymwelwyr allfrig sy'n aros yng Nghymru gynllun mwy pendant o'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud o'i gymharu ag ymwelwyr tymor brig.
- Er gwaethaf tywydd cynhesach yn ystod y tymor brig, mae ymwelwyr sy'n aros yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn y cyfnod allfrig.
- Mae'r mynegeion segment 'lau Ddim Mor Gyfoethog' yn llawer uwch nag yn y tymor brig. Mae proffil yr ymwelwyr allfrig dipyn yn iau ac yn cynnwys mwy o grwpiau o ffrindiau nag yn y tymor brig. Mae tua un o bob wyth (13%) o bartïon ymwelwyr sy'n aros yn y cyfnod allfrig yn grwpiau o ffrindiau.

Gwybodaeth berthnasol o'r arolwg ymwelwyr 'allfrig' yn ymwneud â'r farchnad **Ymwelwyr Dydd**:

- Mae rhai pobl, yn enwedig teuluoedd gyda phlant ifanc, angen canfod pethau i'w gwneud allan o'r tŷ trwy gydol y flwyddyn. Felly, mae teuluoedd gyda phlant ifanc yn grŵp pwysig yn y farchnad allfrig ymwelwyr dydd.
- Mae mwynhad yn yr atyniadau yn cyrraedd ei frig ym mis Nadoligaidd Rhagfyr ac mae'n ymddangos yn debygol bod y boddhad uchel yn gysylltiedig â digwyddiadau Nadoligaidd sydd ymlaen ar yr adeg honno.
- Mae digwyddiadau yn bwysig ar gyfer dod ag ymwelwyr i mewn yn ystod y tymor allfrig.
- Amgueddfeydd - llefydd poblogaidd ar gyfer ymwelwyr dydd.
- Mae ymwelwyr dydd yn fwy tebygol o fod yn ymwelwyr mynych yn ystod y tymor allfrig nag yn y tymor brig. Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr dydd y tymor allfrig (86%) yn ymwelwyr mynych.

Yn ychwanegol at yr Arolygon Ymwelwyr a amlinellir uchod, aeth Croeso Cymru ati i ganfod beth yw 'Anghenion Gwybodaeth Ymwelwyr'. Mae gan yr adroddiad nifer o ganfyddiadau sy'n berthnasol:

- Fel arfer mae ymwelwyr sy'n aros wedi penderfynu eisoes ar y rhanbarth i ymweld ag ef ar yr adeg pan fyddant yn chwilio am wybodaeth. Mae teithiau dydd yn cael eu gwneud cryn dipyn yn fwy byrffyr.
- Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn cynllunio gwyliau yn y DU trwy ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth ar-lein ac all-lein. Y rheswm pam eu bod yn defnyddio'r ddwy ffynhonnell yw oherwydd bod y ddwy'n cyflawni rolau gwahanol.
- Mae ffynonellau ar-lein yn gyffredinol bwysicach cyn y daith oherwydd cânt eu defnyddio i fynd ar drywydd syniadau rhagdybiedig o ble i fynd. Maent yn bwysig ar gyfer sicrhau'r agweddau mwyaf sylfaenol o gynllunio taith, megis penderfynu ar union pa ran o ranbarth y dylent ymweld, dod o hyd i lety a'i archebu. Mae ymhell dros hanner (57%) o'r ymwelwyr sy'n aros yn y DU a gyfwelwyd yng Nghymru yn defnyddio ffynonellau ar-lein cyn y daith i gynllunio eu taith i Gymru, o'i gymharu â chyfran llawer is (18%) sy'n defnyddio ffynonellau all-lein.
- Fel arfer, mae ffynonellau all-lein yn bwysicach yn ystod y daith. Mae taflenni a llyfrynau ac argymhellion gan bobl leol yn arbennig o bwysig o ran dylanwadu ar ymwelwyr ynglŷn â ble maent yn mynd a beth maent yn ei wneud. Mae tua dau o bob pump (38%) o'r ymwelwyr sy'n aros yn y DU a gyfwelwyd yng

⁶ [Visit Wales Off-Peak Visitor Survey 2013/14 - Staying Visitors](#), [Visit Wales Off-Peak Visitor Survey 2013/14 – Day Visitors](#),

Nghymru yn dweud eu bod yn defnyddio ffynonellau all-lein yn ystod eu taith yng Nghymru, o'i gymharu â chyfran is (17%) sy'n defnyddio ffynonellau ar-lein.

- Mae bod â phlant yn ei gwneud yn bwysicach fod y gwaith cynllunio'n cael ei wneud yn gywir. Mae ymwelwyr sydd â phlant dan rhyw gymaint o bwysau i gynllunio gwyliau a theithiau dydd yn dda, oherwydd gall canlyniadau o gael pethau'n anghywir fod yn ofnadwy. Golyga hyn eu bod yn fwy manwl wrth wirio manylion cyn gadael, ac wrth wirio y bydd atyniadau yn darparu digon o adloniant i blant.
- Golyga anghenion arbennig bod rhaid cynllunio'n ofalus iawn. Mae angen i ymwelwyr sydd ag anghenion parti arbennig, fel mynediad a chyfleusterau i'r anabl, gynllunio'n fwy gofalus nag ymwelwyr eraill, ac mae medru dod o hyd i'r wybodaeth y maent yn chwilio amdani ynghylch anghenion arbennig yn gwneud y gwahaniaeth rhwng mynd neu beidio â mynd i gyrchfan / llety.
- Mae pobl leol, yn enwedig darparwyr llety, yn chwarae rhan bwysig iawn wrth ddylanwadu ar ble mae ymwelwyr yn mynd. Ceisir eu cyngor ac ymddiriedir ynddo fwy nag mewn adolygiadau ar-lein am eu bod yn byw yno, ac felly mae llawer o ymwelwyr yn defnyddio gwybodaeth leol i wirio eu rhestr o weithgareddau cynlluniedig, neu i chwilio am syniadau newydd. Mae darparwyr llety llai yn enwedig yn rhagweithiol o ran rhoi gwybodaeth leol.

YMWELWYR Â PHARCIAU CENEDLAETHOL - CYFFREDINOL

Dengys canlyniadau 'Arolwg Ymwelwyr' a wnaed gan [Barciau Cenedlaethol y DU](#) y wybodaeth berthnasol ganlynol ynglŷn ag ymwelwyr i Barciau Cenedlaethol y DU:

- Mae tua 58% o'r ymwelwyr yn dod i 'fwynhau'r golygfeydd a'r tirlun' - sy'n gwneud hyn yn brif reswm dros ymweld â Pharc Cenedlaethol.
- Roedd rhesymau eraill a nodwyd yn cynnwys - 'heddwch a thawelwch' ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored'.
- Roedd cymhellion eraill hefyd yn cynnwys - 'mwynhau ymweliad blaenorol', 'hawdd ei gyrraedd', 'i ymweld â ffrindiau a theulu', 'erioed wedi bod o'r blaen', 'oherwydd ei fod yn Barc Cenedlaethol', 'cefais argymhelliad i ymweld' a 'dod pob blwyddyn'.
- Mae tua 68% o ymwelwyr yn deuluoedd, y rhan fwyaf wedi dod mewn grŵp gyda llai na phump o bobl.
- Dim ond 7% o'r ymwelwyr sy'n dod o'r tu allan i'r DU.
- Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn dod o ranbarth poblogaeth-ddwys De-Ddwyrain Lloegr ger Llundain, neu o'r ranbarthau sydd agosaf at Barciau Cenedlaethol.
- Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr, 93%, yn teithio i'r Parciau Cenedlaethol yn eu car eu hunain.
- Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd i ymwelwyr i'w gwneud mewn Parciau Cenedlaethol yw: Cerdded (40%). Gyrru o gwmpas a gweld golygfeydd mewn car (19%). Ymlacio (12%). Ymweld â threfi a phentrefi (10%).
- Mae canran llai o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored eraill fel marchogaeth, dringo neu gaiacio.

YMWELWYR Â PHARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG (PCBB)

Mae'r ffigyrau STEAM⁷ i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn datgelu'r ystadegau pennawd canlynol:

- Cyfanswm diwrnodau ymwelwyr 4.81 M
- Diwrnodau ymwelwyr sy'n aros 1.09 M

⁷ STEAM (The Scarborough Tourism Economic Activity Model)

- Cyfanswm nifer ymwelwyr 4.01 M
- Nifer yr ymwelwyr sy'n aros 0.30 M
- Nifer o ymwelwyr dydd 3.72 M

Datgela canlyniadau '[Arolwg Ymwelwyr Bannau Brycheiniog \(2014\)](#)' a gomisiynwyd gan Grŵp Marchnata a Chydlyn Bannau Brycheiniog y wybodaeth berthnasol ychwanegol ganlynol⁸ am ymwelwyr ag ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

- Ymatebodd amrywiaeth o fathau o grwpiau ymwelwyr i'r arolwg. Roedd dwy ran o bump yn gyplau (44%) ac un rhan o dair yn deuluoedd gyda phlant (33%). Roedd y gweddill yn cynnwys ffrindiau (13%), teuluoedd heb blant (4%), ymwelwyr unigol (4%), grwpiau taith/ cymdeithasau neu grwpiau eraill o ymwelwyr.
- Maint y parti ar gyfartaledd oedd 3.4 o bobl ac roedd maint parti yn amrywio o 1-36 o bobl. Mae maint parti cyfartalog ymwelwyr dros nos yr un fath, ond mae ychydig yn is ar gyfer ymwelwyr dydd (3.2 o bobl). Mae teuluoedd â phlant gyda maint grŵp cyfartalog o 4.9 o bobl.
- Roedd grwpiau oedran yr ymatebwyr yn amrywio'n fawr, er bod y rhai 55+ oed yn ddwy ran o bump o ymwelwyr dros nos (43%) a thraean o ymwelwyr dydd (34%). Roedd hanner yr ymwelwyr dros nos (48%) yn 35-54 oed, yn codi i 52% ar gyfer ymwelwyr dydd.
- Roedd cyfran uchel o ymwelwyr dros nos (82%) yn dod o Loegr, ond roedd y rhan fwyaf o ymwelwyr dydd (75%) yn dod o Gymru. Roedd yr ymwelwyr dros nos o Loegr yn dod o'r De Ddwyrain (26%), Canolbarth (16%), De Orllewin (15%), Llundain (11%) ac East Anglia (8%).
- Roedd 8% o'r ymwelwyr yn dod o dramor a'r gwledydd mwyaf cyffredin oedd yr Iseldiroedd (39%), Gwlad Belg (9%), UDA (8%), yr Almaen (7%) ac Awstralia / Seland Newydd (7%).
- Y tirlun a golygfeydd a'r tawelwch oedd y dylanwadau allweddol ar yr ymweliadau.
- Roedd ymweld â threfi a phentrefi, cerdded, a bwyta allan yn weithgareddau allweddol. Y trefi a phentrefi mwyaf poblogaidd oedd Aberhonddu (77%), Y Fenni (52%) a Chrughywel (50%).
- Roedd yr atyniadau mwyaf poblogaidd neu'r safleoedd poblogaidd yr ymwelwyd â hwy yn cynnwys y Ganolfan Fynydd (26%), Eglwys Gadeiriol Aberhonddu (21%) a Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (16%).
- Roedd mwy o duedd tuag at ymweld â safleoedd 'naturiol', y mwyaf poblogaidd ohonynt oedd Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu (41%), ardal y Rhaeadrau (37%), Pen y Fan (33%), Cronfa Ddŵr Talybont (26%) a Llyn Safaddan (20%).

YMWELWYR Â PHARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO (PCAP)

Mae'r ffigyrau STEAM i Sir Benfro (2009)⁹ yn datgelu'r ystadegau pennawd canlynol:

- Cyfanswm diwrnodau ymwelwyr 13 M
- Cyfanswm nifer ymwelwyr 4.2 M

Datgela canlyniadau '[Arolwg Ymwelwyr Sir Benfro \(2011-12\)](#)' a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Cyrchfan Sir Benfro y wybodaeth berthnasol ychwanegol ganlynol am ymwelwyr ag ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

⁸ Mae rhai o'r canfyddiadau yn syml atgyfnerthu'r hyn mae'r Arolwg Ymwelwyr Cymru yn ei ddweud wrthym - lle mae hyn yn wir nid yw'r canfyddiadau hyn, er yn berthnasol, wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

⁹ Fel y nodwyd ar wefan [National Parks UK](#)

- Mae tri chwarter yr ymwelwyr yn nosbarthiadau cymdeithasol ABC1 o gymharu â chyfartaledd y DU o tua hanner y boblogaeth ac mae'r gwahaniaeth hwn yn parhau i dyfu.
- Mae'r farchnad gartref yn parhau i fod allweddol: mae tarddiad ymwelwyr wedi cael ei rannu bron yn 50:50 rhwng y rhai o Gymru a rhai y tu allan i Gymru ers 2007/8. Mae ymwelwyr tramor yn parhau i fod oddeutu 5%.
- Mae cryfder cynyddol o ran ymlyniad i'r rhanbarth gan ei hymwelwyr: yn 2011/12 roedd chwarter yn ymweld fwy nag unwaith y mis (i fyny o ychydig o dan un rhan o bump yn 2007/8), ac roedd cyfrannau'r rhai a oedd yn debygol iawn o ddychwelyd i Sir Benfro yn y dyfodol agos ar eu lefelau uchaf.
- Mae teithiau dydd yn parhau i gyfrif am chwarter yr holl ymweliadau, gyda theithiau i aros yn Sir Benfro bron yn 70%.
- Mae'r amgylchedd naturiol yn allweddol i brofiad ymwelwyr, gydag elfennau megis traethau sydd wedi ennill gwobrau, amrywiaeth o atyniadau naturiol a cherdded yn cael eu hystyried fel elfennau pwysicaf y daith, ac yn cael eu hystyried hefyd yn elfennau gorau'r daith.
- Gyda'r amgylchedd naturiol yn chwarae rhan bwysig wrth gymell y daith a mwynhad o'r daith, mae'n dilyn bod gweithgareddau yn canolbwyntio ar fwynhau'r dirwedd: daw dros chwarter o ymwelwyr yno i gerdded, gydag un o bob deg yn dod i ymweld â'r traeth ac 8% i ymweld ag atyniadau naturiol.

Mae Adroddiadau 'Diwedd Tymor' Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn rhoi mewnwelediad da i'r Rhaglen Digwyddiadau. Gweler isod rai o'r canfyddiadau mwyaf perthnasol:

- 543 o ddigwyddiadau i gyd (183 yn y rhaglen a gynigiwyd gan y Pencadlys, 17 o ddigwyddiadau yn Oriel y Parc, 186 o ddigwyddiadau yng Nghaerw, 150 o ddigwyddiadau yng Nghastell Henllys, 7 o ddigwyddiadau yn Ninbych y Pysgod).
- Digwyddiadau a fynychwyd yn flaenorol - Dim - 50%, 1 neu 2 - 23%, 3 neu 4 - 18%, 5 neu fwy - 9%.
- Tua 55% yn ymwelwyr dydd, 30% ar arhosiad hir, 15% ar arhosiad byr.
- O ble? Sir Benfro - 43%, Gweddill Cymru - 17%, arall yn y DU - 35%, Tramor - 3% (Siapan a Ffrainc).
- Gair olaf ... 'Parhewch i ychwanegu at y gweithgareddau hyn!'

YMWELWYR Â PHARC CENEDLAETHOL ERYRI (PCE)

Mae ffigyrau STEAM ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri yn datgelu'r ystadegau pennawd canlynol:

- Cyfanswm diwrnodau ymwelwyr 9.74 M
- Diwrnodau ymwelwyr sy'n aros 7.34 M
- Cyfanswm nifer ymwelwyr 3.79 M
- Nifer yr ymwelwyr sy'n aros 1.39 M
- Nifer o ymwelwyr dydd 2.40 M

Nid oes gwybodaeth Arolwg Ymwelwyr gyfredol ar gael i ardal Parc Cenedlaethol Eryri, ond coladwyd ystadegau ymwelwyr yng Nghynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd.

Mae '[Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-20](#)' yn datgelu'r wybodaeth berthnasol ychwanegol ganlynol ynglŷn ag ymwelwyr â Gwynedd:

- Yn ôl Arolwg Ymwelwyr Gwynedd 2009, roedd y cyfrannau canlynol o ymwelwyr yn nodi eu prif resymau dros ymweld â Gwynedd fel: Golygfeydd/ tirwedd (54%), Arfordir (48%), ymweliad blaenorol (44%), Heddwch a thawelwch (35%), gweld golygfeydd/atyniadau (28%)

- Mae proffil oedran ymwelwyr i Wynedd yn debyg i Gymru yn gyffredinol yn yr ystyr bod ymwelwyr yn tueddu i fod yn hŷn, yn hytrach nag iau - "canol oed ifanc". Fodd bynnag, roedd ychydig llai o bobl 55+ oed yng Ngwynedd (36% o'i gymharu â 42% ar gyfartaledd) ac ychydig mwy o 35-44 oed (26% o gymharu â 22% yng Ngogledd Cymru / 19% ar gyfer Cymru gyfan).
- Mae proffil demograffig ymwelwyr â Gwynedd yn adlewyrchu proffil ymwelwyr i Ogledd Cymru, h.y. ABC1 (62%) C2DE (36%).
- Nid yw'n syndod bod y math o egwyl / gwyliau a gymerir gan ymwelwyr i Wynedd yn adlewyrchu'r duedd ar gyfer Gogledd Cymru yn ei gyfanrwydd: seibiant byr (38%), prif wyliau (36%), ail wyliau (26%).
- Fel gyda Chymru gyfan, canran fach o'r holl ymwelwyr oedd yn ymwelwyr rhyngwladol. Ymwelwyr cartref y DU - ac yn enwedig ymwelwyr o Loegr – yw'r farchnad fwyaf o bell ffordd yng Ngwynedd, ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

CROESO CYMRU – GRWPIAU TARGED YMWELWYR

Marchnad ddomestig:

- Marchnad ddomestig PF yw'r farchnad sylfaenol ar gyfer Cymru, a bydd yn parhau i fod yn brif ffocws ar gyfer gweithgarwch marchnata yn ystod y cyfnod strategol hwn. Mae'n cyfrif am 92% o'r holl deithiau ymwelwyr sy'n aros a 84% o wariant ymwelwyr sy'n aros. O fewn hyn, y segment gwyliau domestig yw'r segment ymwelwyr pwysicaf a mwyaf gwerthfawr o ddigon i Gymru, gyda bron i 6 miliwn o deithiau a £1.1 biliwn o wariant ymwelwyr yn 2012.
- O fewn cyfyngiadau agosrwydd, mae'n ymddangos fod cryn sgôp i dyfu cyfran yr ymwelwyr gwyliau o Lundain a'r De Ddwyrain, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Swydd Efrog a De Orllewin Lloegr. Yn unol â hynny, bydd y gweithgaredd marchnata a ariennir gan Croeso Cymru yn canolbwyntio ar y marchnadoedd daearyddol hyn wrth i'r strategaeth gael ei datblygu.

Marchnad dramor:

- Mae ymwelwyr rhyngwladol yn farchnad gwariant cymharol uchel, ond yn hanesyddol ni fu mor bwysig i Gymru, yn cyfrif am ddim ond 8% o'r holl deithiau ymwelwyr sy'n aros a 16% o holl wariant ymwelwyr sy'n aros.
- Yn unol â hynny, bydd marchnata gweithgareddau a ariennir gan Croeso Cymru yn canolbwyntio ar y tair prif farchnad ryngwladol (Iwerddon, yr Almaen ac UDA / Canada) wrth i'r strategaeth gael ei datblygu.

Nododd Croeso Cymru y llyfdd a phobl sy'n cynnig y potensial gorau ar gyfer datblygu twristiaeth yng Nghymru.

Targedau daearyddol:

- Ardaloedd blaenoriaeth - y rhai o fewn taith dwy awr: coridor yr M4, Canolbarth Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, Hampshire a Gorllewin Lloegr. Yn yr ardaloedd hyn y ceir y gwariant mwyaf ar hysbysebion teledu ac yn y wasg a marchnata uniongyrchol.
- Ardaloedd eilaidd: Gweddill y DU. Mae hysbysebion ar rwydweithiau teledu lloeren a digidol, ac mewn papurau newydd a chylchgronau cenedlaethol, yn rhoi sylw ledled y wlad.

Targedau defnyddwyr:

Mae Croeso Cymru yn adnabod ei grwpiau defnyddwyr yn ôl eu hymddygiad, agweddau a chymhellion, yn hytrach na ffactorau demograffig syml (oedran, galwedigaeth, incwm ayb.). Dangosodd ymchwil manwl mai'r grŵp defnyddwyr unigol pwysicaf yw'r hyn a elwir yn 'Anturiaethwyr Annibynnol'. Mae'r rhain yn:

- chwilio am lefydd a phrofiadau newydd
- cefnog / hoffi peth moethusrwydd
- oedolion yn bennaf, 30 oed a throsodd
- awyddus i osgoi trapiau twristaidd gor-fasnachol
- annibynnol yn eu ffordd o feddwl a'u gweithredoedd
- chwilio am fannau sy'n eu hysbrydoli a'u herio
- â diddordeb mewn deall diwylliant lleol a chwrdd â phobl leol
- eisiau dychwelyd adref wedi'u hadnewyddu a'u cyfoethogi

Ymhellach rhannodd Croeso Cymru yr 'Anturiaethwyr Annibynnol' fel a ganlyn: Cyplau Anturus Diwylliannol Hŷn, Cyplau Anturus yn Darganfod Golygfeydd, Teuluoedd Anturus Egniol, Anturiaethwyr Caniataol.

Cyplau Anturus Diwylliannol Hŷn:

- Hŷn (96% 40+), wedi priodi, dim plant ifanc yn byw gyda hwy. Maent yn tueddu i fod yn fwy ABC1 ac yn y cromfachau incwm uchaf. Prif fathau o wyliau a gymerir yw gweld golygfeydd a gwyliau byr mewn dinasoedd.
- Ddim yn hoffi parciau thema/gwyliau, carafanio, teithio o le i le, gweithgareddau a siopa.
- Ystod dda o atyniadau hanesyddol o bwysigrwydd uchel i'r segment hwn.
- Hefyd mae trefi a dinasoedd diddorol, llety o ansawdd da a golygfeydd hardd yn bwysig iawn iddynt.
- Maent yn hoffi dysgu am y ffordd leol o fyw a diwylliant y llefydd y maent yn ymweld â hwy; ac yn mwynhau darganfod profiadau newydd a llefydd i ymweld â hwy yn y Deyrnas Unedig, felly mae gwyliau yn fwy iddynt na dim ond traeth heulog.

Cyplau Anturus yn Darganfod Golygfeydd:

- Hŷn (95% 40+), wedi priodi, dim plant ifanc yn byw gyda hwy, ddim yn gwahaniaethu lawer ar y raddfa gymdeithasol ac incwm (dim ond ychydig yn uwch).
- Yn fwy tebygol na segmentau eraill o fod yn teithio o le i le.
- Golygfeydd prydferth a chefn gwlad hardd heb ei difetha, fflora a ffawna yw'r prif bethau y maent yn chwilio amdanynt wrth ddewis gwyliau, ac yna arfordir hardd yn ogystal â borgen dda ar lety.
- Nid yw addasrwydd ar gyfer teuluoedd, bod yn ffasiynol, gweithgareddau (ar wahân i gerdded) yn ogystal ag amser teithio byr yn ffactorau amlwg yn eu penderfyniad.
- Mae'n well ganddynt deithio'n annibynnol wrth gymryd gwyliau byr a gwyliau hirach, maent yn hoffi ymweld â mannau sy dd heb eu darganfod, ac mae'n well ganddynt gymryd gwyliau mewn llefydd diarffordd.

Teuluoedd Anturus Egniol:

- Mae'r mwyafrif helaeth (94%) dan 50 oed ac maent i gyd yn byw mewn aelwydydd gyda phlant o dan 15 oed. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ABC1 (67%).
- Ystyriant eu hunain yn anturus ac maent yn ceisio mynd i rywle gwahanol ar wyliau bob tro. Maent hefyd yn hoffi dysgu am y ffordd leol o fyw a diwylliant y llefydd y maent yn ymweld â hwy ac mae traddodiadau teuluol a threftadaeth yn bwysig iddynt.
- Maent yn chwilio am lefydd sy'n cynnig llawer o bethau i blant eu gwneud ym mhob tywydd.
- Mae rhoi profiadau a chyfleoedd newydd i'w plant yn bwysig iawn iddynt.

Anturiaethwyr Cyn-teulu:

- Mae'r mwyafrif helaeth (72%) dan 35 oed ac maent i gyd yn byw mewn aelwydydd heb unrhyw blant o dan 15 oed. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ABC1 (69%) ac maent yn cymryd nifer o wyliau, gwyliau byr neu ddyddiau allan.
- Maent yn mwynhau darganfod profiadau newydd a llefydd i ymweld â hwy yn y Deyrnas Unedig ac maent yn ceisio mynd i rywle gwahanol ar wyliau bob tro.
- Y rhain yw'r rhai mwyaf egniol o segmentau marchnad darged Cymru: mae Cymru fel man chwarae awyr agored yn gymhelliad pwysig iddynt.

5 DATBLYGU'R CYNNYRCH

5.1 CYFLWYNIAD A CHRYNODEB

Mae'r adran hon yn disgrifio'r gwaith a wnaed gan TACP i ddatblygu cyfres o gynhyrchion, neu 'cyfres o weithgareddau ac anturiaethau', ar gyfer y Parciau Cenedlaethol a'r fasnach sy'n gweithredu oddi mewn iddynt, i'w marchnata a'u rhedeg.

Awgrymodd yr ymgynghorwyr o'r cychwyn cyntaf y gallai'r gyfres gynnwys gweithgareddau ac anturiaethau y gellir eu categorïddio fel hyn:

- Gweithgareddau seryddiaeth
- Gweithgareddau ac anturiaethau diwylliannol / hanesyddol
- Gweithgareddau ac anturiaethau natur
- Gweithgareddau ac anturiaethau corfforol

Yna profwyd y syniad hwn drwy broses o ymchwilio ac ymgynghori, ynghyd â set o feini prawf a gynorthwyodd i ddiffinio union natur y cynnyrch, gan gynnwys; tywydd, mynediad i bawb, symlrwydd, diogelwch a natur dymhorol.

5.2 PROSES

Amlinellir y broses ar gyfer datblygu'r gyfres o weithgareddau ac anturiaethau yn Ffigwr 1 (isod). Ymgynghorwyd â sefydliadau masnach dros y ffôn ac ar e-bost; rhannwyd arolygon gyda rhanddeiliaid ac ymwelwyr; a gofynnwyd am wybodaeth arbenigol i nodi unrhyw gyfyngiadau ac ystyriaethau penodol. Casglwyd a chyflwynwyd yr holl wybodaeth mewn gweithdy, ac yno mireiniwyd ymhellach y gweithgareddau a'r anturiaethau a oedd yn cael eu datblygu.



Ffigwr 1 - proses a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r gyfres o weithgareddau ac anturiaethau

5.3 GWEITHGAREDDAU AC ANTURIAETHAU I'W DATBLYGU

Casglwyd y rhestr blaenoriaeth i'w datblygu (gweler isod) gan yr ymgynghorwyr mewn cysylltiad â'r cleient.

- Seryddiaeth Awyr Dywyll Drwy'r Flwyddyn
- Seryddiaeth Awyr Dywyll Achlysurol
- Digwyddiadau Cymdeithas Seryddiaeth
- Cerdded Yng Ngolau'r Lleuad/Cerdded yn y Nos
- Rhedeg Llwybrau Mynyddig
- Antur Beicio Mynydd yn y Nos
- Gwersylla Awyr Dywyll
- Antur Toriad Gwawr a Machlud
- Antur Taith Trên yn y Nos
- Ffotograffiaeth yn y Nos
- Ffaglau a Choelcerthi
- Taith Gerdded Ystlumod
- Antur Pryfed Tân
- Antur Gwyllo Moch Daear
- Antur Gwrando Ar Adar y Nos

I bob pwrpas, y 'garfan' gyntaf o ystod llawer ehangach o weithgareddau ac anturiaethau posibl yw'r rhain, y gellir eu datblygu a'u dwyn ymlaen, wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno ar draws y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru.

5.4 'ANTURIAETHAU NOS - PECYN CYMORTH AR GYFER MASNACH' - LLAWLYFR MASNACH TWRISTIAETH

Bydd y Llawlyfr Masnach cael ei ddatblygu fel 'pecyn cymorth' i ategu datblygu busnes twristiaeth ac fel adnodd hyfforddi. Bydd y cyflwyniad yn cynnwys crynodeb o'r anturiaethau, a ffyrdd y gellid eu hyrwyddo a'u marchnata i ymwelwyr â Pharciau Cenedlaethol Cymru.

Lle bo'n berthnasol, bydd pob gweithgaredd neu antur yn cael ei ddisgrifio o dan y penawdau canlynol:

- Marchnadoedd Posibl
- Lleoliadau Allweddol
- Astudiaethau Achos
- Partneriaid Allweddol
- Cyfyngiadau
- Natur Dymhorol
- Mynediad i Bawb
- Ystyriaethau Diogelwch
- Offer/cyfleusterau sydd eu hangen
- Gweithgareddau Cysylltiedig
- Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd y pecyn cymorth hefyd yn cynnwys cysylltiadau a chyfeiriadau at fentrau busnes awyr dywyll gyfeillgar eraill.

Caiff y Llawlyfr ei frandio yn unol â'r cynigion a amlinellir yn yr adran nesaf, a bydd yn cael ei hyrwyddo a'i farchnata i'r fasnach ar gyfer ei fabwysiadu'n llwyddiannus yn unol â'r cynigion a amlinellir yn Adran 8.

6 DATBLYGU'R BRAND

6.1 CYFLWYNIAD A CHRYNODEB

Mae'r adran hon yn adolygu'r gwaith a wnaed i ddatblygu'r brand. Cafodd yr hunaniaeth brand, iaith a dyluniad eu creu a'u datblygu gan yr ymgynghorwyr dylunio, Girl & Boy Studio.

Mae prif agweddau'r brandio fel a ganlyn:

- **Enw bwriadol disgrifiadol** - 'Profi'r Tywyllwch – Cymru'.
- **Hunaniaeth brand 'edrych a theimlo'** – yn hytrach na logo ac 'ID corfforaethol' cryf.
- **Marc brand a chynllun lliw sy'n cyfateb i gylch bywyd sêr.**
- **Delweddau ffotograffig o'r ansawdd uchaf** – o ddigwyddiadau sêr / wybrennol, ac o ymwelwyr yn mwynhau anturiaethau nos mewn lleoliadau Parciau Cenedlaethol eiconig ar draws Cymru.
- **Disgrifwyr is-bennawd byr** – i fynd gyda'r delweddau a'u geirio fel eu bod yn gweithredu i droi syniadau am 'y tywyllwch' ar eu pen.

Mae'r brandio yn mynd ati i 'godi'r bar' yn sylweddol ar gyfer prosiectau o'r natur hwn. Mae'r ffocws ar y defnydd o ddelweddau o safon uchel y gall cynulleidfaoedd targed berthnasu â hwy, ynghyd ag iaith atyniadol ac un sy'n herio rhagdybiaethau ynglŷn â bod o gwmpas yn y nos.

6.2 DIFFINIO'R BRAND

Dyluniwyd y brand 'Profi'r Tywyllwch' i godi ymwybyddiaeth o'r 'gweithgareddau ac anturiaethau' (y cynnyrch) sy'n digwydd ym Mharciau Cenedlaethol Cymru yn y nos, ac yn hanfodol i annog cyfranogi gweithredol – naill ai ynddynt (ymwelwyr) neu eu sefydlu (y fasnach dwristiaeth).

ADDEWID BRAND

Yr hyn fydd y brand 'Profi'r Tywyllwch' yn ei addo i'r ymwelydd yw y bydd y gweithgareddau hyn yn:

- Syfrdanol, syndod, cadarnhau gwirioneddau bywyd.
- Cyffrous! Canolbwyntio ar ddarganfod ac ymdeimlad o antur.
- Herio, o bosibl ychydig yn arswydus (ond yn ddiogel).
- Atyniadol a chyfareddol - gan helpu dod â phobl 'allan ohonynt eu hunain'.
- Hwyl.
- Yn ddiwylliannol gyfoethog.
- Yn wahanol i'r norm.
- Rhywbeth i'w wneud yn ystod y nos - yn hytrach nag aros i mewn gyda thechnoleg.

Ac, i'r diwydiant twristiaeth, yr addewid yw y bydd y gweithgareddau hyn yn:

- Annog ymwelwyr i aros yn hirach a / neu aros dros nos.
- Dod â chynulleidfaoedd newydd o ymwelwyr i mewn.
- Denu ymwelwyr yn y cyfnodau 'ysgwydd' ac allan o dymor.
- Yn hawdd i'w sefydlu.

- Darparu profiad o ansawdd.

PERSONOLIAETH BRAND

Sefydlwyd 'personoliaeth' y brand mewn Gweithdy Marchnata a Brandio¹⁰ a fynychwyd gan aelodau o'r Grŵp Llywio a Thimau Cyfathrebu'r Parciau Cenedlaethol. Cytunwyd yn gyffredinol y dylai'r brand fod:

- Yn fwy dymunol na chorfforaethol.
- Yn fwy digymell na chynlluniedig.
- Yn fwy modern na chlasurol.
- Yn fwy blaengar na thraddodiadol.
- Yn hwyl.
- Yn hygyrch.

6.3 DYLUNIO, HUNANIAETH A DEFNYDD

Cytunwyd o'r cychwyn y dylai'r brand fod yn fwy o fath 'edrych a theimlo' yn hytrach na chael logo a hunaniaeth gorfforaethol rhy gryf.

Ystyriaeth bwysig a oedd yn gyrru'r penderfyniad hwn oedd y ffaith bod y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru eisoes â logos eu hunain, ac yn achos Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri, roedd ganddynt eisoes frandiau cryf (a logos) yn eu lle ar gyfer eu mentrau Awyr Dywyll sefydledig a'r rhai sy'n ymddangos.

6.3.1 ENW BRAND, LLIWIAU A FFURFDEIP

Mae'r enw brand 'Profi'r Tywyllwch – Cymru' yn fwriadol ddisgrifiadol. Mae'r enw'n sicrhau bod y gynulleidfa yn gwybod yn union beth yw'r cynnig, yn ogystal â phryd a lle mae'n digwydd.

Mae'r marc brand 'clwstwr' yn rhoi ymdeimlad cryf o'r pwnc, ac mae'n dangos yn gynnil bod y tri Pharc Cenedlaethol yn cymryd rhan yn y fenter, tra bod y cynllun lliw yn adlewyrchu *cylch bywyd y sêr*.

Mae'r ffurfdeip 'Cenedlaethol' a ddewiswyd yn 'hyderus, yn ddarllenadwy ac yn groesawgar'.

6.3.2 DELWEDDAU BRAND

Yn ganolog i'r cysyniad dylunio ar gyfer y brand 'Profi'r Tywyllwch' ceir defnydd o ddelweddau ffotograffig o ansawdd uchel. Mae'r pwnc sylfaenol (y sêr ac awyr y nos) eisoes yn golygu delweddau trawiadol ac mae cyfoeth o luniau gwych eisoes ar gael.

Fodd bynnag, mae poblogrwydd tynnu lluniau o sêr, mewn lleoliadau eiconig, wedi arwain at ormodedd o ddelweddau o'r fath ac mae perygl y bydd pobl yn fuan yn blino eu gweld yn cael eu defnyddio at ddibenion hyrwyddo. Mae llawer o'r delweddau sydd eisoes ar gael (yn ddealladwy) yn brin o bobl ynddynt.

Yr ymateb i hyn (ynghyd â'r angen i hyrwyddo gweithgareddau heblaw am y rhai sy'n ymwneud â seryddiaeth) yw cynnig y strategaeth ganlynol ar gyfer defnyddio lluniau:

¹⁰ Cynhaliwyd yn Swyddfa Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn Noc Penfro ar 9 Rhagfyr 2015 (Gweler Atodiad A).

- Ar gyfer eu defnyddio, i ddewis dim ond y rhai gorau un o'r delweddau presennol o awyr y nos, a dynnwyd mewn lleoliadau (o fewn y Parciau Cenedlaethol) y gellir eu hadnabod ar unwaith ¹¹.
- I ychwanegu at y cymysgedd ddelweddau o ansawdd yr un mor uchel o bobl yn cymryd rhan yn yr ystod lawn o anturiaethau a gweithgareddau nos.
- A, lle bo bylchau, comisiynu lluniau newydd sy'n wirioneddol ddal awyrgylch y weithgaredd benodol ac o'i amgylch.

I gael blas ar y mathau o ddelweddau y gellid eu defnyddio ar y wefan a chyfryngau marchnata eraill, mae'r dylunwyr wedi darparu rhai enghreifftiau o ffotograffau a dynnwyd oddi ar y rhyngwyd fel y gallent ymddangos wrth eu defnyddio (Gweler drosodd).

Ynghyd â'u his-benawdau cysylltiedig, dyluniwyd y mathau hyn o ddelweddau (a dargedwyd yn ofalus ar y gynulleidfa berthnasol) i fachu'r ymwelydd i mewn i fod eisiau gwybod mwy.

6.3.3 IAITH BRAND

Ynghyd â'r delweddau ffotograffig, mae'r 'is-benawdau' sy'n mynd gyda hwy yn rhan allweddol o'r cysyniad dylunio.

Y cysail sylfaenol ar gyfer iaith brand yw'r syniad bod 'tywyllwch', mewn perthynas â'n byd ni, yn gysylltiedig ag amser pan fo popeth yn cau i lawr.

I bwrpas hyrwyddo'r brand, caiff y syniad hwn ei droi ar ei ben. I 'ddeffro' pobl i'r byd sy'n bodoli y tu hwnt i'n hamser ymwybodol ni ein hunain, i ryfeddodau y gellir eu datgelu a'r darganfyddiadau sydd i'w gwneud.

Y canlyniad yw cyfres o is-benawdau syml, bachog, wedi'u geirio'n ddeallus, sydd ynghyd â'u delwedd briodol yn dweud wrth y gynulleidfa bron popeth y mae angen iddynt wybod am y cynnig cynnyrch.

Mae'r is-benawdau a ddatblygwyd hyd yn hyn yn cynnwys y canlynol:

- 'Gweld Cymru mewn goleuni newydd'
- 'Straeon chwedlonol yn cael eu hadrodd yn yr awyr'
- 'Yr amser gorau o'r dydd'
- 'Yn llachar fel y nos'
- 'Dewch o hyd i ffyrdd newydd'
- 'Y nos yw'r dydd newydd'
- 'Diffoddwch a gwrandewch'
- 'Yr holl offer sydd eu hangen arnoch'


Mae'n weddol hawdd datblygu is-benawdau newydd sy'n cyd-fynd â'r brand, cyn belled â bod y person sy'n eu datblygu yn ystyried:

- Y syniad o droi pethau ar eu pennau
- Yr hyn mae'r brand yn ei addo
- Personoliaeth y brand

¹¹ Mae nifer o ffotograffwyr proffesiynol ac amatur sydd wedi cynhyrchu gwaith o'r ansawdd angenrheidiol - enghraifft dda yw gwaith [Drew Buckley](#) yn Sir Benfro.




Ffigwr 2 - logo 'Profi'r Tywyllwch - Cymru' (credyd: Girl & Boy Studio)



Ffigwr 3 - gwefan 'Profi'r Tywyllwch - Cymru' (credyd: Girl & Boy Studio)



Ffigwr 4 - enghraifft ddelweddol 'Profi'r Tywyllwch - Cymru' (credyd: Girl & Boy Studio)



Ffigwr 5 - Enghraifft ddelweddol 'Profi'r Tywyllwch - Cymru' (credyd: Girl & Boy Studio)

7 STRATEGAETH FARCHNATA

7.1 CYFLWYNIAD A CHRYNODEB

Mae'r adran hon yn ymwneud ag amlinellu'r dull strategol o frandio a marchnata'r prosiect. Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfres o 11 o amcanion strategol. Deilliodd yr amcanion hyn o'r briff ac o asesiad o ganlyniadau'r gwaith ymchwil a datblygu a wnaed, yr adroddwyd arno yn Adrannau 1-6 uchod.

7.2 AMCANION STRATEGOL

Rhestrir isod benawdau 'Amcanion strategol' y Cynllun Brandio a Marchnata.

- Glynu'n gaeth at y weledigaeth a chenhadaeth
- Gwireddu potensial y prosiect
- Targedu marchnata yn ofalus
- Cyd-fynd ag ymgyrch farchnata 'blynyddoedd thema' Croeso Cymru
- Gweithio'n agos gyda sefydliadau partner eraill ar y lefel genedlaethol
- Ymgysylltu â'r sector busnes, cymunedol, a gwirfoddol
- Sicrhau y gellir cyflenwi'r cynnyrch i ateb y galw
- Datblygu'r wefan fel 'man cychwyn' ar gyfer antur nos
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y modd gorau
- Adeiladu cronfa o straeon gwych
- Cadw pethau'n syml wrth gyflenwi

Yn yr isadrannau dilynol, amlinellir pob amcan yn fanwl, ac esbonnir defnydd ymarferol bob un o ran datblygu deunyddiau marchnata a hyrwyddo.

7.2.1 GLYNU'N GAETH AT Y WELEDIGAETH A CHENHADAETH

Mae'r prosiect 'Profi'r Tywyllwch' yn fwy na menter dwristiaeth, ac mae angen iddo gael ei weld felly gan gynulleidfaoedd mewnol ac allanol fel ei gilydd.

Yn y bôn, mae'r prosiect yn ymwneud â 'chynaliadwyedd'. Mae ganddo'r gallu i fod yn llwyfan ar gyfer anfon allan negeseuon am y ffordd yr ydym yn byw a beth y gallwn ei wneud i wella'r sefyllfa yr ydym yn cael ein hunain ynddi ar y 'Blaned Ddaear', heb orfod pregethu.

Felly byddem yn colli cyfle pe na bai ein negeseuon ynghylch manteision lleihau llygredd golau (ar gyfer bywyd gwyllt ac ar gyfer iechyd pobl) yn cael ei nodi'n *glir a diamwys drwy'r cyfan* o'n cynnwys hyrwyddo, ochr yn ochr â'r negeseuon mwy amlwg am allu gweld y sêr yn fwy eglur mewn lleoliadau gwirioneddol wych.

7.2.2 GWIREDDU POTENSIAL Y PROSIECT

Mae gan y prosiect 'Profi'r Tywyllwch' hefyd y gallu i fod yn llwyddiannus ar lefel genedlaethol a dod yn enghraifft ar y llwyfan rhwngwladol.

Mae rhesymau da dros haeru hyn:

- Mae'r prosiect yn cyd-fynd yn berffaith â'r hyn y mae'r Parciau Cenedlaethol yn ymhél ag ef – sef tynnu sylw pobl at eu 'nodweddion arbennig', a'u cael i'w gwerthfawrogi.
- Mae cynseiliau da yng Nghymru i sefydlu prosiectau aml-bartner llwyddiannus o'r math hwn, er enghraifft, Llwybr Arfordir Cymru.
- Mae cyfrifoldeb ar y Parciau Cenedlaethol (a wnaed yn glir yn yr Adolygiad presennol) i fod yn 'gadarnleoedd arloesi'.
- Polisi Llywodraeth Cymru a arweinir gan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015', sy'n gyrru pawb i weithredu cysylltiedig cytunedig yn y gymuned ac ar y lefel genedlaethol. Ynghyd â 'Deddf Cynllunio (Cymru) 2015' a 'Mesur yr Amgylchedd (Cymru)'.

Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru eisoes ar y blaen yn hyn o beth, ac mae'n llwyfan cryf i adeiladu arno. Beth am fynd yr holl ffordd, a mynd ati i sefydlu Cymru fel 'Gwlad Awyr Dywyll' gyntaf y byd?

7.2.3 TARGEDU MARCHNATA YN OFALUS

Mae angen cofio ffocysu, oherwydd weithiau ceir tuedd i geisio bod yn 'bob peth i bawb'. Yng nghyd-destun cyllideb dynn iawn, daw targedu gofalus yn bwysicach fyth.

Mae'r marchnadoedd targed wedi'u diffinio'n weddol dda, ac mae angen gweithio drwy bob un er mwyn ceisio gweithio allan union amseriad a natur cyflenwi'r cyfryngau marchnata. Bwriedir i'r dadansoddiad isod fod yn fan cychwyn:

- *Teuluoedd Anturus Egniol* sydd eisiau mynychu digwyddiad unwaith ac am byth 'ar ôl iddi dywyllu' - hybu digwyddiadau sydd ar gael drwy'r wefan, cyfryngau cymdeithasol a thrwy bosteri a thaflenni mewn Canolfannau Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, treftadaeth ac atyniadau eraill.
- *Anturiaethwyr heb deulu* sydd eisiau rhoi cynnig /cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored dydd/nos – hybu cyfleoedd drwy'r wefan, sianelau cyfryngau cymdeithasol ac ar lafar mewn gweithgareddau awyr agored a darparwyr llety.
- *Cyplau Anturus sy'n Darganfod Golygfeydd* sydd eisiau edrych ar sêr – hyrwyddo llefydd 'diarffordd' trwy'r wefan, blogiau, ac ar lafar gan ddarparwyr llety.

7.2.4 CYPLAU HÛN ANTURUS YN DARGANFOD DIWYLLIANT – HYRWYDDO 'PROFIADAU DIWYLLIANNOL' SY'N CYNNWYS GWEITHGAREDDAU YN YSTOD Y NOS DRWY'R WEFAN AC AR LAFAR MEWN TAFARNDAI, TAI BWYTA A DARPARWYR LLETY (A GAIFF EU HACHREDU'N 'LYSGENHADON AWYR DYWYLL'). CYD-FYND AG YMGYRCH FARCHNATA 'BLYNYDDOEDD THEMA' CROESO CYMRU

Bydd yn bwysig sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag ymgyrch Croeso Cymru. Mae Croeso Cymru yn cefnogi'r prosiect 'Profi'r Tywyllwch', ac maent yn cynnig nifer o gyfleoedd i'w clymu'n agosach. Mae'r Ymgyrch 'Blwyddyn...' a gychwynnwyd gan Croeso Cymru wedi creu cyffro gwirioneddol ar draws bob sector sy'n ymwneud â datblygu twristiaeth yng Nghymru.

Gellir gwneud cysylltiadau rhwng y prosiect 'Profi'r Tywyllwch' a phob un o'r tair thema, ac er gwaethaf y ffaith ei bod yn anos i Eryri, ac yn enwedig Bannau Brycheiniog, uniaethu â Blwyddyn 3 yr ymgyrch, 'Blwyddyn y Môr', ceir syniad gan Croeso Cymru y bydd y diddordeb a gweithgareddau a gynhyrchir yn y ddwy flynedd flaenorol (o 'Antur' ac o 'Chwedlau') yn cael eu cario drosodd a'u cefnogi yn hytrach na'u 'gollwng'.

Mae Ymgyrch Croeso Cymru hefyd yn darparu fframwaith cadarn ac amserlen i weithio oddi mewn iddi, gyda dyddiadau targed clir sydd eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer gweithgareddau lansio'r flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf o gwmpas Tach/Rhag 2016 a 2017. Mae cyfleoedd o fewn y cyfnod hwn i wireddu 'mantais gystadleuol' o ran amseriad a natur y lansiad a gweithgareddau hyrwyddo eraill a gychwynnwyd ar gyfer y prosiect 'Profi'r Tywyllwch', yn sgil d y ffaith y gall ei bwyslais fod yn fwy addas i gyfnodau 'ysgwydd' y tymor a'r gaeaf - yn gyffredinol, y gwrthwyneb i pryd bydd pobl eraill yn hyrwyddo'u gweithgareddau.

7.2.5 GWEITHIO'N AGOS GYDA SEFYDLIADAU PARTNER ERAILL AR Y LEFEL GENEDLAETHOL

Mae bob Parc Cenedlaethol eisoes wedi datblygu perthynas dda / gref gyda sefydliadau partner. Mae cyfle i ddatblygu'r rhain yn llawnach ar y lefel genedlaethol.

Bydd hyn yn bwysig yn y dyfodol gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw ac i raddau llai, Cyfoeth Naturiol Cymru, i gyd eisiau datblygu mentrau cenedlaethol 'Awyr Dywyll' eu hunain.

Ni fu'n bosibl i'r ymgynghorwyr edrych ar y posibilïadau o weithio ar lefel partneriaeth genedlaethol mewn unrhyw ddyfnder mawr, ond argymhellir bod y cyfleoedd hyn yn cael eu harchwilio ymhellach. Mae synergedd glir y gellir eu hystyried, ac mae perygl beth bynnag y bydd y farchnad (o safbwynt yr ymwelydd) yn dod yn rhy llawn os nad yw'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn gweithio gyda sefydliadau eraill sydd eisiau gwneud yr un peth.

7.2.6 YMGYSYLLTU Â'R SECTOR BUSNES, CYMUNEDOL, A GWIRFODDOL

Drwy gydweithio â'i gilydd, mae'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn gallu datblygu, marchnata a hyrwyddo cynnyrch 'craidd'. Trwy weithio gyda phartneriaid eraill ar y Lefel Genedlaethol, bydd cyrhaeddiad y cynnyrch craidd yn cael ei ymestyn. Fodd bynnag, heb gefnogaeth y sectorau busnes, gwirfoddol a chymunedol, ni fydd fawr o obaith y gall yr ystod lawn o 'weithgareddau ac anturiaethau' fod ar gael i'r rhai sydd am gymryd rhan ar lefel leol.

Mae'r gwaith a wnaed eisoes gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrth ymgysylltu â phob math o sefydliadau sy'n ymwneud â datblygu twristiaeth gynaliadwy trwy eu rhaglen 'Llysgenhadon Awyr Dywyll' yn fodel y gellid ei ddatblygu ar draws y ddau Barc Cenedlaethol arall.

Mae cyfle gyda datblygiad y 'Llawlyfr Masnach' i gychwyn cyfnod newydd o'r rhaglen ym Mannau Brycheiniog ac yna cyflwyno hon i Arfordir Penfro, Eryri, ac os oes prosiect gwirioneddol genedlaethol yn datblygu, yna y tu hwnt i hynny i ardaloedd eraill megis Cwm Elan.

7.2.7 SICRHAU Y GELLIR CYFLENWI'R CYNNYRCH I ATEB Y GALW

Un o'r prif rwystredigaethau i ymwelwyr, ar ôl cael eu denu gan y delweddau hyfryd o'r gweithgareddau ac anturiaethau ar ôl iddi dywyllu, fydd darganfod nad oes unrhyw beth yn digwydd yn yr ardal y maent yn aros ynddi, neu'n bwriadu ymweld â hi.

Bydd yn bwysig felly cael calendr llawn o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio a'u hysbysebu ymhell ymlaen llaw, ac i ddarparu opsiynau DIY, awgrymiadau eraill, neu gyfeirio at sefydliadau eraill, fel nad yw'r ymwelwyr yn cael eu siomi. Mae'n debygol na fydd hyn yn rhywbeth y gellir ei gyflawni'n gyflym, a bydd angen ei adeiladu'n raddol dros gyfnod o amser.

7.2.8 DATBLYGU'R WEFAN FEL 'MAN CYCHWYN' AR GYFER ANTUR NOS

Mae gan y wefan y gallu i hyrwyddo pob un o'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru fel mannau lle gall anturiaethau a gweithgareddau nos gychwyn. Yn ei strwythur a'i gynnwys, dylai'r wefan fynd â'r ymwelydd ar daith rithwir at y sêr ac yn ôl, ac yna ar hyd a lled y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, gan dynnu sylw at y gorau o'r hyn sydd ar gael yn ystod y nos.

Bydd strwythur y wefan yn cael ei gynllunio i ddarparu cysylltiadau cryf â gwefannau Parc Cenedlaethol unigol neu wefannau 'Cyrchfan' fel y bo'n briodol. Bydd yn caniatáu i'r ymwelydd rhithwir symud i lawr (neu i fyny) at yr hyn sy'n digwydd ar lefel leol (neu genedlaethol). Bydd cynnal y dolenni a rheoli'r rhyngwyneb rhwng y gwahanol wefannau yn agwedd bwysig o ddatblygiad parhaus y prosiect.

7.2.9 DEFNYDDIO CYFRYNGAU CYMDEITHASOL YN Y MODD GORAU A'U RHEOLI'N OFALUS

Mae'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (Facebook ac yn fwy arbennig Twitter) yn sianelau cyfathrebu cyflym ac uniongyrchol hanfodol â'r cynulleidfaoedd targed, ond mae angen cymryd gofal i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n wirioneddol fuddiol i'r gynulleidfa arfaethedig.

Awgryma ymchwil y bydd y gwahanol farchnadoedd targed ar gyfer y prosiect hwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffyrdd gwahanol – efallai'n wir na fydd rhai marchnadoedd targed yn eu defnyddio o gwbl. Mae hefyd deimlad, o'u gadael 'heb eu rheoli', y gallai'r postiau a'r llinbyrth arwain at nifer fawr o gyfraniadau sy'n gwneud fawr ddim i wella cyflwyniad y cynnyrch i'r ymwelydd.

7.2.10 ADEILADU CRONFA O STRAEON GWYCH

Mae'r prosiect 'Profi'r Tywyllwch' yn ddelfrydol ar gyfer dweud straeon ac mae straeon gwyach yn denu cynulleidfaoedd mawr.

Mae cyfle i adeiladu cronfa o straeon gwyach a dynnwyd o brofiadau gwirioneddol ymwelwyr yn mwynhau'r gweithgareddau ac anturiaethau nos yng Nghymru.

7.2.11 CADW PETHAU'N SYML WRTH GYFLENWI

Wrth wraidd llawer o'r ymgyrchoedd marchnata gorau, mae syniad clir sy'n cael ei ddilyn drwyddo i'r ffordd y mae'r ymgyrch yn cael ei chyflawni.

8 RHAGLENNU A CHYFRYNGAU MARCHNATA

8.1 CYFLWYNIAD A CHRYNODEB

Mae'r adran hon yn amlinellu sut y mae'r cynnyrch 'anturiaethau nos' i gael ei farchnata o ran yr hyn a gaiff ei gyflenwi a phryd. Y prif argymhellion yw fel a ganlyn:

- **Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau 'Anturiaethau Nos' cydlynol** – Blwyddyn un yn cael ei chychwyn yn gyflym drwy gynnwys cymysgedd synhwyrol o ddigwyddiadau 'angor' newydd a digwyddiadau wedi'u 'hail-becynnu' (wedi eu tynnu o raglenni presennol y Parciau Cenedlaethol).
- **Sicrhau arloesedd rhaglen barhaus** – drwy ddefnydd creadigol o'r holl 'fachau' sydd ar gael i gyd-fynd â gweithgareddau; tymhorau, gweithgarwch wybrennol a chysylltiad â digwyddiadau cenedlaethol a lleol eraill.
- **Canolbwyntio'n gyntaf ar ddarparu'n llwyddiannus y cyfryngau marchnata allweddol** - gwefan, sianelau cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau brand - wedyn datblygu perifferolion eraill fel bo cyllid yn caniatáu.
- **Defnyddio'r llawlyfr masnach i ymgysylltu â'r fasnach** – yn hytrach na rhannu'r llawlyfr, ei wneud yn rhan annatod o'r rhaglen hyfforddi 'arddull Llysgennad' ble mae yna ymrwymiad i weithredu gan sefydliadau twristiaeth sy'n awyddus i fod yn gysylltiedig â'r brand 'Profi'r Tywyllwch'.
- **Manteisio ar hyblygrwydd yn y brandio** – er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu i'r dyfodol, fel y gall ddatblygu onglau newydd sy'n canolbwyntio ar gyflenwi i gynulleidfaoedd allweddol, er enghraifft, drwy ddatblygu ei apêl i gynulleidfaoedd teuluol / iau.

Bwriad y rhaglennu a datblygu'r cyfryngau marchnata sydd ynghlwm ag o yw sicrhau marchnata parhaus a chyson o'r manteision cystadleuol i'r marchnadoedd targed penodol a nodwyd.

8.2 RHAGLENNU

Y ffactor allweddol ar gyfer llwyddiant y rhaglen 'Profi'r Tywyllwch - Cymru' fydd y gwaith o ddatblygu gweithgareddau ac anturiaethau nos cyffrous ac atyniadol poblogaidd, sy'n creu cyffro o'u hamgylch.

Bydd cyflawni hyn yn heriol, oherwydd fe fydd angen datblygu a chyflenwi'r mwyafrif o'r gweithgareddau a'r anturiaethau hyn gan y fasnach dwristiaeth, ac mae perygl, o ganlyniad, na chânt eu datblygu yn y ffordd y byddai Parciau Cenedlaethol Cymru yn hoffi ac yn gobeithio eu gweld.

Er mwyn osgoi gweld hyn yn digwydd, bydd yn bwysig i Barciau Cenedlaethol Cymru ddatblygu set o weithgareddau ac anturiaethau 'angor', a chyflwyno 'enghreifftiau' o'r rhain yn y lle cyntaf. Gall yr enghreifftiau hyn gael eu harwain gan Barc Cenedlaethol, Partner neu Fasnach. Yr hyn sy'n hanfodol i'w cynnwys yn y rhaglen, fodd bynnag, yw cynllun digwyddiadau wedi'i lunio'n dda, a chynllun dilynol ar gyfer gwerthuso llwyddiant.

Efallai y bydd rhai o weithgareddau a digwyddiadau presennol y Parc Cenedlaethol (megis y rhai sy'n gysylltiedig â 'Gweld Sêr' yn cael ei hail-becynnu a'u mireinio i gyd-fynd ag ethos 'Anturiaethau Nos'. Bydd angen datblygu a threalu rhai eraill. Gwnaed ymgais gychwynnol i dynnu at ei gilydd yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n

mynd ymlaen o fewn y Parciau Cenedlaethol mewn rhaglenni digwyddiadau yng Nghymru ar gyfer 2016 - Gweler Atodiad B.

O ganlyniad i'r uchod, bydd yn anodd gwneud cynlluniau cadarn ar gyfer cyflwyno rhaglen dair blynedd ar hyn o bryd, gan ei bod yn fwy tebygol o dyfu'n organig, fel a phryd y bydd digwyddiadau a gweithgareddau llwyddiannus yn dechrau gwreiddio yn y rhaglen. Un peth a fydd yn helpu yn hyn o beth yw os y bydd Croeso Cymru, fel y rhagwelir, yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r holl weithgareddau drwy gydol y tair blynedd, yn hytrach na gollwng y gweithgareddau 'antur' ar ôl blwyddyn 1.

Ar ôl dweud y bydd y dasg yn un heriol, mae serch hynny ystod o ffactorau a fydd yn cynorthwyo i gynllunio, datblygu a gweithredu'r rhaglen flynyddol yn llwyddiannus. Y rhain yw:

- Gosod digwyddiadau blynyddol a arweinir gan y Parc/ a gychwynnwyd gan y Parc i mewn yn y rhaglen e.e.
 - 'Wythnos Gweld Sêr'.
 - 'Gŵyl Nos' - penwythnos yn dathlu anturiaethau yn ystod y nos.
- Llwyfannu gweithgareddau a digwyddiadau yn ôl y tymor priodol y maent yn gweddu iddynt orau, e.e.
 - Edrych ar y sêr yn y gaeaf.
 - Gweithgareddau corfforol gyda'r nos (cerdded, rhedeg, beicio) yn y gwanwyn hwyr, yr haf, yr hydref.
 - Gwersylla dan y sêr yn yr haf.
 - Adrodd straeon / teithiau cerdded arswyd yn yr hydref.
- Cynnal digwyddiadau ochr yn ochr â gweithgareddau awyr nos arbennig e.e.
 - Taith gerdded olau leuad (Lleuad lawn / Lleuad Las / 'Supermoon')
 - Gwyllo'r wawr yn torri (Hirddydd Haf)
 - Gwersyll Sêr Gwib (Cawod Sêr Gwib Perseid)
- Cysylltiad â digwyddiad cenedlaethol arall yng Nghymru e.e.
 - Eisteddfod yr Urdd / Genedlaethol/ Ryngwladol
 - Gŵyl Lenyddol y Gelli
 - Gwyliau Cerdded amrywiol
 - Calan Gaeaf

Gwnaed ymgais 'drafft cyntaf' i dynnu'r ffactorau hyn ynghyd mewn 'Calendr Digwyddiadau' tair blynedd - gweler Atodiad C. Bydd angen mireinio, golygu ac adeiladu ar hwn gan aelodau Grŵp Llywio'r Prosiect a Thimau Cyfathrebu/ Digwyddiadau'r Parciau Cenedlaethol, a'i ddatblygu i fod yn rhywbeth sy'n ymarferol ac yn cyd-fynd ag arferion cyfredol.

Serch hynny, roedd yr ymarfer (ynghyd â'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cleient) yn tynnu sylw at rai pethau y gellir eu gosod yn y Calendr 'Profi'r Tywyllwch – Parciau Cenedlaethol Cymru'. Ceir crynodeb byr o'r digwyddiadau allweddol isod:

- Cynnig i lansio gwefan, ffilm, llawlyfr a rhai o'r 'Gweithgareddau antur nos' i fasnachwyr mewn cydweithrediad â PLANED a Thwristiaeth Sir Benfro (Ebrill / Mai 2016)
- Cynnig i lansio 'Anturiaethau Nos' i ymwelwyr (diwedd Mai / dechrau Mehefin 2016)
- Cynnig i lansio rhaglen weithgareddau ac anturiaethau 'Chwedlau Awyr Dywyll' i fasnachwyr ac ymwelwyr (Haf hwyr 2016)

8.3 CYFRYNGAU MARCHNATA

Gyda chyfyngiadau cyllidebol mewn golwg, ac yn unol â'r awgrym y dylai cyflenwi gael ei gadw'n syml gyda ffocws ar wneud ychydig o bethau yn dda iawn, bydd angen blaenoriaethu'n synhwyrol ddatblygiad y cyfryngau marchnata – ceir crynodeb o'r defnydd arfaethedig o gyfryngau marchnata yn y Cynllun Gweithredu yn Adran 8.4 (isod).

Nodwyd y cyfryngau marchnata canlynol fel rhai hanfodol:

- Y wefan.
- Cyfryngau cymdeithasol.
- Ffilm.
- Cronfa straeon a lluniau 'Anturiaethau Nos'
- 'Anturiaethau Nos'- Llawlyfr Masnach Twristiaeth.
- Digwyddiadau brandio 'Profi'r Tywyllwch – Parciau Cenedlaethol Cymru' .
- 'Arloeswyr Profi'r Tywyllwch' (Llysgenhadon busnes twristiaeth).
- Taflenni hyrwyddo x 2 (cyffredinol a ffocws teuluol).

Nodwyd y cyfryngau marchnata canlynol fel rhai dymunol:

- Y wasg a PR – Cynnwys gweithgareddau 'Profi'r Tywyllwch' newydd ar y teledu a radio
- Arddangosfa ac asedau eraill sioe ffordd arddull 'pop-up' (e.e. cysau T gyda brand) i'w defnyddio mewn digwyddiadau a sioeau.
- Siartiau maint poced edrych ar y sêr a dosbarthwr 'Profi'r Tywyllwch' i fusnesau twristiaeth.
- Ap 'Profi'r Tywyllwch'.

8.3.1 Y WEFAN

Yn amlwg mae'r wefan yn hanfodol bwysig i gyflenwi'r prosiect hwn yn llwyddiannus. Bydd yn cael ei dylunio i fod ar gyfer ymwelwyr ac yn gyfeillgar i ymwelwyr, ond bydd hefyd yn gweithredu fel 'Porth' i wefannau Parc Cenedlaethol / Cyrchfan ac fel canolbwynt ar gyfer gwybodaeth i'r fasnach dwristiaeth.

Gweler strwythur y wefan a gynigir yn llawn yn Atodiad D. Mae'r prif dudalennau a'u trefn yn cael eu dangos isod:

- Hafan
 - Delweddau symudol/ ffilm
- Edrych ar sêr
 - Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
 - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
 - Parc Cenedlaethol Eryri
- Gweithgareddau ac anturiaethau
- Masnach dwristiaeth
 - Llawlyfr
- Dolenni a Chyfryngau Cymdeithasol
 - 'Blog Anturiaethau Nos'
- Cyswllt

Wrth ddatblygu'r wefan, bydd yn bwysig cynnal ansawdd y delweddau gydol yr amser ac adeiladu cronfa o 'straeon gwyh' o'u cwrpas yn raddol. Wrth i'r straeon hyn gael eu hychwanegu, byddant yn helpu i gadw'r wefan yn ffres ac yn berthnasol.

Agwedd bwysig o'r broses barhaus o ddiweddarau'r wefan fydd cynnal ymdeimlad cryf o natur y tymhorau.. Bydd y delweddau a'r storïau 'rheng flaen' yn cyfateb i weithgareddau a digwyddiadau tymhorol priodol.

Dylai strwythur y wefan hefyd alluogi sefydlu Blog 'Anturiaethau Nos' gyda chyfraniadau, drwy wahoddiad yn unig, o ystod o ffrindiau a chefnogwyr gweledigaeth ehangach y fenter; seryddwyr, anturiaethwyr, naturiaethwyr, awduron teithio, ayb.

Byddai'r blog yn cael ei sefydlu i 'sbarduno' trafodaeth i gyd-fynd ag ymgyrch neu ddigwyddiad â thema benodol.

8.3.2 CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Y prif nodau ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol fydd:

- Creu 'cyffro' o amgylch digwyddiadau penodol.
- Gyrru pobl, ymwelwyr a'r fasnach dwristiaeth, at y wefan.
- Rhoi nodiadau atgoffa o ddigwyddiadau wybrennol allweddol sy'n digwydd.
- Dathlu cerrig milltir allweddol sy'n gysylltiedig â dynodiadau 'Awyr Dywyll' (cynnydd tuag at eu dyddiadau cyflawniad / pen-blwydd).

Mae'n debyg mai 'Twitter' fydd y sianel cyfryngau cymdeithasol fwyaf effeithiol, a chydabyddir y bydd cyfrifon presennol sydd eisoes wedi'u sefydlu gan Dimau Cyfathrebu yn y Parciau Cenedlaethol perthnasol yn cael eu defnyddio, yn hytrach na sefydlu cyfrif newydd yn benodol ar gyfer 'Profi'r Tywyllwch'.

Cynigir defnyddio'r hashnodau canlynol mewn ymgyrchoedd:

- Un cyffredinol i'w defnyddio trwy'r amser: #Profirtywyllwch
- Ymgyrch lansio yn canolbwyntio ar y teulu: #ardydraedynhwyr/ifynynhwyr
- Ymgyrch benodol i'w defnyddio ar y cyd â themâu Croeso Cymru e.e.
 - #anturawyrdywyll
 - #chwedlauawyrdywyll
- Gweithgaredd- ac antur-benodol e.e.
 - #sêrfyfyrto
 - #rhedegynytyllwch
 - #magiodynytyllwch

Un o'r cyfleoedd mawr wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fydd ymgysylltu â'r gynulleidfa a chreu llwyfan fydd yn rhannu gwybodaeth yn fyw. Un ffordd o fynd ati i ymgysylltu â chynulleidfaoedd fydd eu gwahodd i bostio lluniau o'u hanturiaethau nos eu hunain.

8.3.3 FFILM

Bydd y ffilm sy'n cael ei datblygu fel rhan o'r comisiwn gan Huw James Media yn darparu ffocws ar gyfer tudalen hafan y wefan, a bydd fersiynau byrrach/ clipiau ar gael i'w defnyddio ar sianelau cyfryngau cymdeithasol.

Mae Croeso Cymru wedi mynegi diddordeb cryf i ddefnyddio rhai o'r clipiau eu hunain ac wedi cynnig eu lluniau o'r awyr eu hunain i ategu'r hyn y gall y gwneuthurwyr ffilmiau ei gyflawni. Mae cyfranogiad byw Croeso Cymru yn gwella'n sylweddol y rhagolygon y caiff y ffilm ei chodi a'i gweld gan gynulleidfa eang, gartref a thramor.

8.3.4 CRONFA STRAEON A LLUNIAU 'ANTURIAETHAU NOS'

Mae'r 'gronfa straeon a lluniau' yn syml yn gasgliad o'r straeon a'r delweddau gorau a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau; golygyddol, y blog (uchod) a chyfraniadau a gasglwyd oddi ar y cyfryngau cymdeithasol.

8.3.5 'ANTURIAETHAU NOS – PECYN CYMORTH I FASNACH – LLAWLYFR MASNACH TWRISTIAETH

Mae'r 'Llawlyfr Masnach' yn cynnig cyfle ardderchog i hyrwyddo'r fenter i fusnesau twristiaeth ac i'w hannog i gefnogi a/neu gynnal digwyddiadau 'Profi'r Tywyllwch'

Mae angen i'r Llawlyfr gael brand llawn a'i ddosbarthu fel copi caled mewn digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer y fasnach dwristiaeth, yn ogystal â bod ar gael am ddim i'w lwytho o'r wefan.

8.3.6 DIGWYDDIADAU BRANDIO 'PROFI'R TYWYLLWCH – PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU'

Er y bydd llawer o'r digwyddiadau yn y rhaglen yn cael eu harwain gan sefydliadau partner neu'n cael eu cynnal yn lleol gan y fasnach dwristiaeth, bydd set graidd o ddigwyddiadau yn cael eu gyrru gan y Parciau Cenedlaethol. Mae'r cyfle i frandio'r rhain fel digwyddiadau â brand 'Profi'r Tywyllwch - Cymru'.

Bydd yn bwysig i drefnwyr digwyddiadau fod yn ymwybodol o'r darlun cenedlaethol ehangach, a defnyddio llenyddiaeth gyda brand, deunydd ysgrifenedig (a fersiynau digidol cysylltiedig) gyda brand, yn ogystal ag asedau eraill gyda brand, wrth gyfathrebu cyn y digwyddiad ac yn y digwyddiad ei hun.

8.3.7 'ARLOESWYR PROFI'R TYWYLLWCH'

Bwriad y fenter 'Arloeswyr Profi'r Tywyllwch' arfaethedig yw ategu ac adeiladu ar y gwaith a wnaed gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o ran eu 'Llysgenhadon Awyr Dywyll'.

Y syniad fyddai ymgysylltu â'r fasnach dwristiaeth, gan wahodd perchnogion a gweithwyr i gymryd rhan mewn rhaglen o hyfforddiant, sydd:

- Yn rhoi gwybodaeth gefndirol iddynt ynglŷn â'r fenter 'Profi'r Tywyllwch - Cymru', gan amlygu pwysigrwydd a pherthnasedd yr ymdrechion a wneir gan y Parciau i amddiffyn awyr y nos rhag llygredd golau.
- Yn codi eu hymwybyddiaeth o fanteision ymgysylltu â digwyddiadau a gweithgareddau 'Profi'r Tywyllwch' (y rhai a amlinellir yn y Llawlyfr).
- Yn ymgorffori agweddau eraill ar raglen 'Llysgennad Awyr Dywyll' APCBB.
- Yn eu galluogi i ddefnyddio'r logo 'Profi'r Tywyllwch' fel 'Nod Barcud' y gallant ei ddefnyddio yn eu deunydd marchnata a hyrwyddo eu hunain.

Yn amlwg bydd angen i bob Parc edrych ar ba mor bell y caiff y brand 'Profi'r Tywyllwch' ei integreiddio (os o gwbl) â'r hyn sydd eisoes yn ei le. Ond ar gyfer Parciau hynny sy'n cychwyn arni (APCAP ac APCE) mae'r cyfle yn bodoli i gyflwyno'r syniad 'Arloeswyr' o'r newydd.

Sut bynnag y mae'r materion yn ymwneud â brandio yn cael eu datrys, ni ellir dianc rhag y ffaith bod ymgysylltiad y fasnach dwristiaeth yn hanfodol. Os bydd y fenter yn gweithio'n dda, yna i raddau cynyddol bydd busnesau twristiaeth yn dod yn wyneb cyhoeddus 'Profi'r Tywyllwch'.

Mae'n hysbys mewn twristiaeth fod 'pobl yn ogystal â llefydd yn creu atgofion', a bod gan y bobl y mae ymwelwyr i'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn eu cyfarfod y grym i wneud y gwahaniaeth rhwng cof gwyh a chof gwael. Ychwanegwch at hyn y ffaith bod ymwelwyr yn gwneud argymhellion i'w ffrindiau a'u teulu, a bod yr argymhellion llafar hyn yn ffurfio cyfran sylweddol o'r rhesymau a nodwyd dros ymweld â chyrchfan, ac mae achos cryf dros ymgysylltu â'r fasnach a'u hannog i gymryd rhan.

8.3.8 TAFLENNI HYRWYDDO

Nid oes angen mawr i gynhyrchu ystod eang o lenyddiaeth hyrwyddo ond byddai taflen hyrwyddo gyffredinol syml yn ddefnyddiol, yn cynnwys:

- Gwybodaeth am y fenter 'Profi'r Tywyllwch – Parciau Cenedlaethol Cymru'.
- Y delweddau ansawdd orau o ymwelwyr â'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn mwynhau gweithgareddau ac anturiaethau.
- Map o Gymru yn amlygu'r llefydd gorau i fynd i sylu ar sêr a siart sêr syml.
- Cyfeiriad gwefan a manylion cyswllt.

Byddai taflen arall wedi'i thargedu at gynulleidfa deuluol yn briodol hefyd:

- Wedi'i dylunio fel strîbed comig ac yn cynnwys cymeriad cartŵn e.e. 'Numinous', Uwch Arwres yr Awyr Dywyll
- Cwis gwylwyr sêr.
- Chwiliwch am y bywyd gwyllt gyda'r nos (Delweddau o 12 o anifeiliaid y nos i'w canfod) pedwar bob un yn cuddio ym mapiau'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru ...
- Cyfeiriad gwefan a manylion cyswllt.

8.3.9 Y WASG A PR

Mae anturiaethau nos (a delweddau cysylltiedig) yn amlwg yn ddeniadol i'r cyfryngau newyddion, ac ni ddylai fod yn rhy anodd cael y wasg i redeg stori.

Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i ymgysylltu â 'selebs Cymreig' a allai fod yn barod i roi eu sbin ar anturiaethau nos, gan helpu i gychwyn / ailfywiogi ymgyrchoedd, er enghraifft:

- 'Taith gerdded Nos gyda Derek y Dyn Tywydd'.
- 'Taith Gerdded yn y Nos gyda Sian Williams' (chwaraewr proffesiynol cyntaf Rygbi Merched Cymru).
- 'Gwyllo Moch Daear gyda Iolo Williams'
- 'Chwedlau Awyr y Nos yn cael eu hadrodd gan Ruth Madoc'
- 'Teithiau tren yn y nos gydag Ifor y Trên'

Hefyd mae cyfleoedd eraill yn bodoli i ymgysylltu â selebs o fyd seryddiaeth/ gwyddoniaeth e.e. Dr Maggie Aderin-Pocock neu deithio yn y gofod e.e. Tim Peake (gallai ail-drydar y lansiad!)

Sioe deithiol 'pop-up'

Mae'r delweddau rhyfeddol yn cynnig eu hunain yn berffaith i arddangosfa 'pop-up' a allai gydag ychydig o ddychymyg gael ei gynllunio i fod yn rhyngweithiol.

8.3.10 SIARTIAU EDRYCH AR Y SÊR MAINT POCED

Mae'r rhain eisoes ar gael, a gellir eu hail-frandio (ar ôl cael y caniatâd angenrheidiol).

8.3.11 AP 'PROFI'R TYWYLLWCH'.

Mae'r posibiliadau ar gyfer ap yn ddiddiwedd. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i hyn a thynnu ysbrydoliaeth o rai o'r aps 'twristiaeth' sydd eisoes wedi'u profi'n llwyddiannus. Mae digon o enghreifftiau ar y rhyngrwyd fel man cychwyn.

8.4 CYNLLUN GWEITHREDU

Tabl 1 - cynllun gweithredu

Tasg	Corff arweiniol (partneriaid)	Deilliannau	Amserlen	Adnoddau sydd eu hangen
Gwefan 'Profi'r Tywyllwch'	APCAP - APCBB / APCE (Croeso Cymru) APCAP - APCBB / APCE	- Gwefan yn mynd yn fyw yn unol â'r strwythur a chynnwys a argymhellir. 'Blog Anturiaethau Nos' yn cael ei sefydlu gyda rhaglen dreigl o flogwyr 'enwog' yn cymryd rhan i gychwyn blogposts chwarterol ar wahanol themâu.	- Ebrill 2016. - Ebrill 2016 – Blog cyntaf ar thema 'Edrych ar sêr'. - Gorffennaf 2016 – Ail flog ar thema 'Creaduriaid y Nos'. - Hydref 2016 – Trydydd blog ar thema 'Chwedlau Awyr Dywyll'	- Ymgynghorwyr y We (Girl & Boy Studio) - Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol - Blogwyr 'enwog'
Sianelau cymdeithasol cyfryngau	APCAP - APCBB / APCE (Croeso Cymru)	- Cyflawni integreiddio gyda sianelau cyfryngau cymdeithasol PC presennol - Cysylltiadau allanol gydag ymgyrchoedd CC Blwyddyn o Antur a Dowch o hyd i'ch Epig - Iansio ymgyrch #ifynyarôlamsergwely.	- Ebrill 2016. - Gorffennaf 2016.	Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol
Ffilm	APCAP - APCBB / APCE (Croeso Cymru)	Lansio ffilm ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio: #darganfodyntywyllwch	Mai 2016.	- Ymgynghorwyr ffilm (Huw James Media) - Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol
Cronfa straeon a lluniau 'Anturiaethau Nos'	APCAP - APCBB / APCE	Sefydlu gan ddefnyddio sianelau cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook a	Parhaus	- Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol - Ffotograffwyr

Tasg	Corff arweiniol (partneriaid)	Deilliannau	Amserlen	Adnoddau sydd eu hangen
		Twitter		▪ Blogwyr
Llawlyfr Masnach Twristiaeth 'Anturiaethau Nos'	APCAP - APCBB / APCE	▪ Llawlyfr wedi'i gwblhau a'i lwytho i fyny ar y wefan. ▪ Lansiad Masnach.	▪ Ebrill 2016. ▪ Mai 2016.	▪ Ymgynghorwyr Llawlyfr Masnach (TACP) ▪ Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol
'Profi'r Tywyllwch – Rhaglen Digwyddiadau Blynnyddol Parciau Cenedlaethol Cymru	APCAP / APCBB / APCE (Croeso Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw, CNC)	▪ Parciau Cenedlaethol Cymru – sefydlu Rhaglen Digwyddiadau Blynnyddol 'Craidd'. ▪ Cydlynu a chydweithio â phartneriaid allweddol i sicrhau rhaglen ddigwyddiadau ehangach.	▪ 1 Ebrill 2016 – Darganfod Awyr Dywyll yng Nghastell Caeriw ▪ Mehefin 2016 - 'Anturiaethau Nos' Lansiad i ymwelwyr ○ Taith Gerdded Moch Daear ○ Saffari Magiod ○ Gwersylloedd Sêr Gwib ○ Astroffotograffeg ○ Taith Gerdded Ystlumod ▪ Medi 2016 – ymgyrch 'Chwedlau Awyr Dywyll' Lansiad i ymwelwyr a masnach.	▪ Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol
'Arloeswyr Profi'r Tywyllwch' - Llysgenhadon busnes twristiaeth	APCAP - APCBB / APCE (Croeso Cymru, cyrff twristiaeth rhanbarthol a phartneriaid lleol)	Rhaglen hyfforddi 'Arloeswyr' genedlaethol yn cael ei gweithredu ar fodel APCBB.	▪ Mehefin 2016?	▪ Staff Parciau Cenedlaethol / Staff o sefydliadau partner lleol
Llenyddiaeth hyrwyddo	APCAP - APCBB / APCE	▪ Taflen hyrwyddo gyffredinol yn cael ei dylunio a'i hargraffu	▪ Mehefin 2016?	▪ Ymgynghorwyr dylunio ▪ Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol
Y wasg a PR	APCAP / APCBB / APCE	▪ Parhau i ddefnyddio storïau cadarnhaol i gadw proffil y prosiect yn uchel o fewn amrywiaeth o sianelau	▪ Parhaus	Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol Selebs Cymreig

Tasg	Corff arweiniol (partneriaid)	Deilliannau	Amserlen	Adnoddau sydd eu hangen
		cyfryngau.		
Arddangosfa sioe deithiol 'pop-up' ac asedau eraill	APCAP - APCBB / APCE	Dylunio ac argraffu arddangosfa pop-up ac asedau eraill	Medi 2016?	Ymgynghorwyr dylunio Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol
Siartiau edrych ar y sêr o faint poced gyda brand 'Profi'r Tywyllwch'	APCAP - APCBB / APCE	Dylunio ac argraffu siartiau edrych ar sêr	Medi 2016?	Ymgynghorwyr dylunio Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol
Ap 'Profi'r Tywyllwch'	APCAP - APCBB / APCE	Ap ar gam dylunio a rhoi prawf ar ei ddichonolrwydd	Prosiect Cam 2 - 2017	Ymgynghorwyr dylunio Staff/Swyddogion Cyfath. Parciau Cenedlaethol

9 MONITRO A GWERTHUSO

9.1 CYFLWYNIAD A CHRYNODEB

Mae'r adran hon yn darparu fframwaith ar gyfer datblygiad y prosiect yn y dyfodol ac yn arbennig y dangosyddion allweddol a ddefnyddir i werthuso llwyddiant.

9.2 DIOGELU'R DYFODOL

Bydd gweithgareddau ac anturiaethau 'Profi'r Tywyllwch' o reidrwydd yn cael eu datblygu dros amser, ac oherwydd hyn bydd yn helpu i gadw'r brand yn ffres a'r cynnyrch yn tyfu, wrth i weithgareddau ac anturiaethau newydd ddod yn weithredol.

Bydd chwilio parhaus am ddelweddaueth ffotograffig o ansawdd dda yn bwysig, a lle nodir bylchau, bydd angen comisiynu o'r newydd yn hytrach na 'gwneud y tro' gyda ffotograffau nad ydynt yn cyrraedd y safon.

Ffordd arall o sicrhau bod y cynnyrch a'r brand yn parhau i fod yn ffres fydd treiddio'n ddyfnach i anghenion cynulleidfaoedd targed a sefydlu, er enghraifft, adran i blant ar y wefan.

9.3 ALLBYNNAU, CANLYNIADAU, EFFEITHIAU A GOSOD TARGEDAU

Gall monitro a gwerthuso llwyddiant y prosiect gael ei gynnal ar dair lefel. Yn gyntaf, gellir adnabod 'allbynnau' gweithgareddau'r prosiect. Yn ail, asesu pa mor bell mae'r prosiect wedi arwain at y 'canlyniadau' a ddymunir. Yn drydydd, mesur 'effaith' y prosiect yn y tymor hirach.

Bydd gosod targedau a mesur llwyddiant yn erbyn pob un o'r rhain yn ddefnyddiol ac yn bwysig o ran adeiladu darlun cyffredinol o lwyddiant. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw dargedau wedi'u gosod ymlaen llaw i weithio â hwy, bydd angen i'r Grŵp Llywio Parciau Cenedlaethol Cymru sefydlu'r rhain drostynt eu hunain. Yr hyn sy'n dilyn isod, felly, yw trosolwg o'r dangosyddion a allai gael eu defnyddio

9.3.1 ALLBYNNAU

Mesurau allbwn meintiol:

- Nifer o ymweliadau â'r wefan.
- Nifer o 'drydariadau' / ail-drydar / dilynwyr.
- Nifer o amseroedd yr edrychwyd ar y ffilm.
- Nifer o storïau a lluniau.
- Nifer o weithgareddau newydd a ychwanegwyd at y Llawlyfr Masnach.
- Nifer o ddigwyddiadau brand.
- Nifer o ymwelwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau.
- Nifer o fusensau twristiaeth 'Arloeswyr' /Llysgenhadon a gafwyd.
- Nifer o daflenni hyrwyddo a gynhyrchwyd ac a ddosbarthwyd.

- Faint o gynnwys yn y wasg a PR .
- Nifer o sioeau teithiol a gafwyd/ digwyddiadau a fynychwyd.

Mesurau allbwn ansoddol:

- Sylwadau ymwelwyr ar flogiau / cyfryngau cymdeithasol.
- Adborth gan ymwelwyr yn dilyn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau.
- Storiâu / ffotograffau ymwelwyr a gyfranwyd.
- Adborth busnes twristiaeth yn dilyn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau.

9.3.2 DEILLIANNAU

Deilliannau hanfodol:

- Mwy o ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o awyr y nos ymysg ymwelwyr, busnesau twristiaeth sy'n gweithredu ym Mharciau Cenedlaethol yng Nghymru , a thrigolion y Parciau.
- Mwy o ymwybyddiaeth ymysg ymwelwyr o effeithiau niweidiol llygredd golau ar iechyd a lles pobl a bywyd gwyllt.
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o farchnadoedd targed sy'n ymweld / yn aros dros nos mewn Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yng nghyfnodau 'ysgwydd' y tymor ac yn y gaeaf.
- Cynnydd yn nifer busnesau twristiaeth a thrigolion Parciau Cenedlaethol Cymru sy'n cymryd camau ymarferol i leihau llygredd golau.
- Partneriaid allweddol yn ymwneud â gweithio tuag at weledigaeth gyffredin o Gymru fel y 'Genedl Awyr Dywyll' gyntaf.

9.3.3 EFFEITHIAU

Effeithiau tymor hir:

- Llai o lygredd golau ym Mharciau Cenedlaethol Cymru.
- Mwy o fioamrywiaeth ym Mharciau Cenedlaethol Cymru – yn enwedig anifeiliaid nosol.
- Cymunedau mwy cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru.
- Egwyddorion ac ymarfer mwy cynaliadwy yn cael eu mabwysiadu gan ymwelwyr i Barciau Cenedlaethol Cymru.

ATODIADAU

ATODIAD A: GWEITHDY BRANDIO 9FED RHAGFYR 2015 - NODIADAU

'Y 'prosiect mawr' cyntaf lle mae'r 3 Pharc yn dod at ei gilydd a gweithio fel un'.

C: BETH SY'N DOD I'R MEDDWL GYDA'R TERM 'AWYR DYWYLL'?

- Nos
- Sylwi ar y sêr
- Hwyr
- Edrych ar y sêr
- Awyr nos anhygoel
- Dim golau artiffisial
- Beth sydd gennym ond beth mae pobl eraill wedi synnu o'i weld
- Gweld Sêr
- Profiadau gwych

Y 'GYSTADLEUAETH'

- Y mwyaf atyniadol o'r 'safleoedd cystadleuol' oedd y rhai gyda'r delweddau mwyaf trawiadol a'r rhai **mwyaf syml**.
- Y rhai lle y gwelwch y delweddau a meddwl "y prif beth yr wyf yn mynd i wneud yw gweld y sêr" (yn arbennig safleoedd **Arsyllfa Kielder** a'r **Ynysoedd Dedwydd**).
- **Delweddau sy'n "Dal y dirwedd a'r awyr"** – dangos yr hyn y gall lleoliad ei gynnig

C: SUT YDYCH CHI'N MYND I WAHANIAETHU RHWNG Y TRI PHARC ER MWYN EU MARCHNATA YN GYFARTAL HEB EI GWNEUD YN GYSTADLEUAETH RHWNG Y TRI?

[GWELER HEFYD ATODIAD 1]

Pwyntiau trafod:

- Tirweddau yn hollol wahanol, e.e. Arfordirol / Mynyddig / Cymoedd
- DULL GWERTHU: Mae'n rhaid i chi aros dros nos yn un o'r lleoliadau i weld y sêr - pwynt gwerthu mawr i'r cymunedau lleol a pherchnogion cyfleusterau lleol
- "Gwelwch yr holl dirweddau" / "Gadewch y llygredd golau ar ôl"
- Mae gan bob un o'r tri pharc un peth yn gyffredin – byddwch yn gweld yr un awyr o bob un. Efallai ffocysu ar yr un agwedd hon y maent yn ei rhannu?

DADANSODDIAD SWOT

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- Gwendid - Dim brandio ar gyfer unrhyw gynllun awyr dywyll a diffyg hyblygrwydd yng ngwefan bresennol PCAP.
- Bygythiadau - Mae llawer o'r safleoedd ar draws Sir Benfro yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a allai fod yn fygythiad oherwydd eu bod fod eisiau lansio eu menter Awyr Dywyll eu hunain yn y dyfodol agos.
- Cryfderau - Nid oes gan yr un Parc arall arfordir. Hefyd mae Sir Benfro eisoes yn cynnal nifer o weithgareddau yn ystod y nos ar draws y sir. Mae'r datganiad cenhadaeth unedig ar draws y Parciau Cenedlaethol yn gryfder hefyd.
- Cyfleoedd - 5 safle a safle gweithgareddau. Hefyd cyfle i ddatblygu'r brand Awyr Dywyll ar draws Sir Benfro a dysgu oddi wrth Fannau Brycheiniog. Ceir cyfle hefyd i gynnig profiad dyfnach, mwy nag edrych ar sêr yn unig.

Bannau Brycheiniog

- Gwendid - Diffyg cyllideb marchnata a chyflenwi disgwyliadau addawol y brand (e.e. disgwyliadau tywydd).
- Bygythiadau - Cadw arweinydd brand a gwanychu/ ansawdd y brand.
- Cryfderau - Ffotograffiaeth eiconig a chydabyddiaeth gref mai'r parc yw Gwarchodfa Awyr Dywyll gyntaf Cymru.
- Cyfleoedd - Cydweithio â'r parciau eraill i gyrraedd cynulleidfa ryngwladol

Eryri

- Gwendid - Diffyg ymwybyddiaeth o frand penodol a'r hyn mae'n ei gynrychioli (er y byddai'n well gen i alw hyn yn gyfle!).
- Bygythiadau - Arwyddocâd corfforaethol canfyddedig posibl brand APCE.
- Cryfderau - Cysondeb gyda brandio corfforaethol APCE - logo yn cael ei adnabod ac mae'n hunanesboniadol! Mae'n effeithiol ac effeithlon ac yn 'cyd-fynd' â'r hyn a wnawn.
- Cyfleoedd - Codi ymwybyddiaeth APCE o frandio Awyr Dywyll / Gweld Sêr ac o'r ardal fel Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.

C: A YDYCH CHI'N HOFFI'R TEITL 'AWYR DYWYLL'?

- Gethin o Eryri - "Camarweiniol - ymddangos fel petai'r ymgyrch wedi ei anelu tuag at gael pobl i ddiffodd eu goleuadau, fel ymgyrch arbed ynni". Maent yn defnyddio'r term 'Gweld Sêr' yn Eryri - ffocws mwy cadarnhaol.
- Hefyd o Barc Cenedlaethol Eryri: "Ceisiwch osgoi 'is-benawdau' lle bynnag y bo'n bosibl - gallant ddyddio a dod yn 'kitsch'. Dylai'r logo a/ neu'r teitl ei hun allu cyfleu'r neges."
- A allai'r gair 'tywyll' fod yn gysylltiedig ag arwyddocâd negyddol - mae pobl yn ofni'r tywyllwch ayb.
- A allai ymddangos fod yr ymgyrch yn ymwneud yn unig â seryddiaeth? Gan fod mwy o weithgareddau ar gael i wneud yn y nos, e.e. Taith Gerdded Ystlumod - nid canolbwyntio'n unig ar weld y sêr
- Parciau Cenedlaethol: Ar ôl iddi dywyllu
- Awgrym Posib - enwi'r brand ar ôl anifail nosol? Dim byd sydd â gormod o naws 'Calan Gaeaf'.

CYNULLEIDFA DARGED

“ANTURIAETHWYR ANNIBYNNOL” - “MASNACH” - “POBL LEOL”

Hefyd ffactoreiddio i mewn bobl gydag anableddau i gael mynediad llawn i’r gweithgareddau.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

- Mae pobl sy'n ymweld yn tueddu i aros dros nos yn hytrach na chymryd teithiau dydd, oherwydd diffyg hygrychedd Sir Benfro, yn hytrach na lleoliad mwy canolog fel y Bannau.
- Mae gan Sir Benfro ymwelwyr ffyddlon sy’n dod yn ôl dro ar ôl tro.

PERSONOLIAETH BRAND - GEIRIAU ALLWEDDOL/DELWEDDAU

- Seren gynffon
- Sêr
- Ystlum (anifeiliaid nosol)
- Draig
- Map o Gymru gyda sêr arno lle mae’r lleoliadau Parc
- Llygad noeth - Yn y parciau hyn ni fyddai angen telesgop nac offer ffansi i weld y sêr - dyna harddwch Awyr Dywyll
- Mythau a chwedlau
- Cytserau
- Treftadaeth ddiwylliannol
- Di-ben-draw
- Mabinogion (llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol)
- Celtiaid/Seintiau/Pererinion
- Archeoseryddiaeth (Castell Henllys/Côr y Cewri)
- Awyr serenog

“Chi, y tirlun a’r awyr”

“Parciau Cenedlaethol ar ôl iddi dywyllu”

“Awyr Dywyll ar ôl iddi dywyllu”

“Lle mae pobl a’r tirlun yn cwrdd â’r awyr”

Edrych ar sêr = gweithgaredd sefydledig OND gallai brandio fod yn fwy blaengar a denu’r ymwelydd modern hefyd

SBECTRWM PERSONOLIAETH BRAND

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Dymunol, cyfeillgar



Corfforaethol, proffesiynol

Digymell, egni uchel										Meddwl a chynllunio gofalus
Modern, technoleg uchel										Clasurol, traddodiadol
Blaengar										Sefydledig
Hwyl										Difrifol
Hygyrch i bawb										Chwaeth gaffaeledig

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

Dymunol, cyfeillgar										Corfforaethol, proffesiynol
Digymell, egni uchel										Meddwl a chynllunio gofalus
Modern, technoleg uchel										Clasurol, traddodiadol
Blaengar										Sefydledig
Hwyl										Difrifol
Hygyrch i bawb										Chwaeth gaffaeledig

Parc Cenedlaethol Eryri:

Dymunol, cyfeillgar										Corfforaethol, proffesiynol
Digymell, egni uchel										Meddwl a chynllunio gofalus
Modern, technoleg uchel										Clasurol, traddodiadol
Blaengar										Sefydledig
Hwyl										Difrifol
Hygyrch i bawb										Chwaeth gaffaeledig

NODIADAU NAOMI I ATEGU'R UCHOD.

- Dymunol, cyfeillgar – Yn sicr, hefyd cynnal gwerth ein dibenion a'n cenhadaeth.
- Digymell, egni uchel – IE! Ond rydym eisiau i bobl fod yn gyfrifol a chynllunio ymlaen hefyd. Gwahaniaeth main iawn.

- Modern, technoleg uchel – mae ei weld yn cyd-fynd â'r thema....
- Blaengar – Rwyf ar y ffens yma. I ddechrau meddyliais 'blaengar', ond mae ein brand yn gryf ac wedi hen sefydlu ac rydym yn cael budd o hyn.
- Hwyl – IE! Mae'n ymddangos fel petaem ofn annog hwyl (cyfrifol) ac antur a pharchedig ofn.
- Hygyrch i bawb – dylai'n sicr fod yn hygyrch i bawb, ond ddim mewn ffordd arwynebol gobeithio, a allai ymddieithrio'r gynulleidfa arbenigol sefydledig.

AWYR DYWYLL YN GWEDDU I THEMÂU CROESO CYMRU

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

2016 - Blwyddyn o Antur

- Anturiaethau bach
- Ar ôl iddi dywyllu - ymdeimlad o antur beth bynnag, yn enwedig i blant sy'n aros i fyny tu draw i'w hamser gwely
- Profiadau a darganfyddiadau newydd
- Gwersylla, tanau gwersyll, adrodd straeon
- Teithiau cerdded yn y nos
- Teithiau cerdded yn y Preseli i weld yr Aurora Borealis

2017 - Blwyddyn o Chwedlau

- Cestyll
- Offrwm Diwylliannol
- Cytserau
- Pererinion
- Golau Lleuad - Smyglo
- Ysbrydion y Cestyll (e.e. Caeriw)
- Terfysgoedd Beca – torri'r tollbyrth yn y tywyllwch
- Seintiau - Govan, Dewi, Non, Brynach
- Archeo-seryddiaeth

2018 - Blwyddyn y Môr

- Mordwyo
- Teithiau ar y Môr
- Masnach
- Bywyd Gwyllt
- Llongddrylliadau
- Goresgyniadau - Ffrancwyr, Llychlynwyr
- Teithiau Cwch yn y Nos
- Goleudai
- Llanw / Lleuad
- Masnach
- Bywyd Gwyllt e.e. Aderyn drycin Manaw

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

2016 - Blwyddyn o Antur

- Gwyliau Sêr
- Teithiau Cerdded Nos
- Teithiau Ystlumod
- Dydd i'r nos

2017 - Blwyddyn o Chwedlau

- Bannau Brycheiniog yr USP mwyaf
- Mythau - Brenin Arthur, Merch y Llyn, Chwedlau Awyr y Nos
- Sgysiau a Nosweithiau Edrych ar Sêr yn seiliedig ar gytserau
- Ochr ysbrydol seren y Nadolig

2018 - Blwyddyn y Môr

- Mae pob afon yn arwain i'r môr!

Parc Cenedlaethol Eryri:

2016 - Blwyddyn o Antur

- Annog pobl i ddarganfod rhywbeth neu rywle newydd. Efallai eich bod wedi ymweld â Llynnoedd Cregennan sawl gwaith, ond a ydych erioed wedi gwneud hynny yn y nos?
- Teithiau cerdded tywys/saffari yn y nos ayb.

2017 - Blwyddyn o Chwedlau

- Enwau llefydd a chwedloniaeth. Dywedir bod Idris Gawr, y cawr yr enwyd Cadair Idris ar ei ôl, yn ôl pob golwg yn eistedd yn ei 'Gadair' er mwyn edrych ar y sêr. Mae'n dipyn o chwedl! Mae cysylltiadau cryf â'r Mabinogi (Math fab Mathonwy) hefyd.
- Mae nifer o'r enwau Cymraeg ar gytserau a nodweddion yn yr awyr dywyll yn gysylltiedig ag enwau llefydd, e.e. Caer Arianrhod (Corona Borealis) a Sarn Badrig ac eraill sy'n gysylltiedig â'r Mabinogi.

2018 - Blwyddyn y Môr

- 23 milltir o arfordir Eryri ar gyfer taith dywys yn y nos? Thema heriol!

BROLIANT PERSWADIOL CRYNO

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Pwyntiau allweddol:

- Y Parciau Cenedlaethol yw'r llefydd gorau i fwynhau Awyr Dywyll - Pam? Cydnabyddiaeth ryngwladol am ei fod yn rhan o'n pwrpas i warchod hyn i gyd a'i rannu gyda chi.
- Bydd Parciau Cenedlaethol yn rhoi pecyn cyfan o weithgareddau i chi, fel bod eich mwynhad yn fwy nag edrych ar sêr yn unig.

- Yn cysylltu pobl â hanes cyfoethog y sir, a gall pobl fynd yn ôl mewn amser.
- Ailddarganfod y nos a'i weld fel byd hollol newydd
- "Mwynhewch Barciau Cenedlaethol ar ôl iddi dywyllu" / "Onid ydy'r tywyllwch yn wych?"

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

Pwyntiau allweddol:

- Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol gyntaf yng Nghymru.
- Ni fyddwch yn credu beth a welwch nes i chi edrych i fyny.
- Helpwch ni i ddiogelu harddwch a gloywder y parciau dan awyr y nos.

"Sefwch yng Ngwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol Bannau Brycheiniog ac edrychwch i fyny – mae'r llwybr llaethog fel bwa uwch eich pen yn yr awyr dywyll hardd uwchben ein Parc."

GAN RUTH COULTHARD AR ÔL Y GWEITHDY

I mi mae'n ymwneud â chysylltu â'r bydysawd, dod o hyd i'ch lle eich hun, ein lle ni yn y cosmos, a phrofi'r teimlad o syndod. Mae profiad yn air cryf i mi. **Dyma le ar ôl iddi dywyllu y mae mythau a chwedlau'r dirwedd yn dianc i fyny i'r awyr.** Drama nosweithiol, o'r bron! Hefyd, fel y crybwyllais, mae'n ymwneud â diogelu'r awyr dywyll nid yn unig i ni ein hunain, ond ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

'...mae'n brofiad 'arallfydol' sydd ar gael yn agos iawn i stepen drws llawer o bobl ac mae'n **rhywbeth arbennig y mae gwir angen i ni ei ddiogelu.**'

'O ran y neges llygredd golau – mae angen i ni sicrhau fod pobl yn defnyddio'r golau iawn, yn y lle iawn ar yr adeg iawn, ond efallai na ddylai'r prosiect hwn dreiddio'n rhy ddwfn i'r fath bethau.'

'Yn bersonol, rwyf yn meddwl y dylem gael goruwchddyn sy'n diogelu awyr y nos, a chynigiais hynny pan wnes i Countryfile rai blynyddoedd yn ôl, ond torrwyd yr olygfa honno allan o'r golygiad terfynol!!!'

PARC CENEDLAETHOL ERYRI:

Pwyntiau allweddol:

- Cymru yw'r wlad gyda'r gyfran uchaf o'i hawyr dywyll wedi'u diogelu yn y byd.
- Mae gennym 3 Parc Cenedlaethol gogoneddus sydd i gyd â rhywbeth gwahanol i'w gynnig.
- Mae ein hawyr dywyll yn cael ei hymgorffori yn ein diwylliant, o enwau llefydd i chwedloniaeth.
- Cewch eich ysbrydoli gan dirluniau godidog yn ystod y dydd ac awyr anhygoel yn y nos.
- Helpwch ni i ofalu am rhyfeddod hwn.
- Mwynhewch! Chwiliwch!
- Rydym yn helpu i ofalu am y Parc Cenedlaethol ac eisiau eich helpu i ddysgu mwy amdano a'i fwynhau. Rydym hefyd yn awyddus i helpu'r economi lleol i gael budd o rinweddau arbennig yr ardal (h.y. yr awyr dywyll) – mewn modd cynaliadwy.

ATODIAD B: CALENDRAU RHAGLENNU – BLWYDDYN 1 – DIGWYDDIADAU PRESENNOL

Tabl 2 - calendr rhaglennu - blwyddyn 1 - digwyddiadau sy'n bodoli eisoes

2016 – Parciau Cenedlaethol yng Nghymru – Digwyddiadau Awyr Dywyll/ Nos					
Mis	Tymor	Bannau Brycheiniog	Arfordir Penfro	Eryri	Gweithgaredd/Digwyddiadau Ymgyrch
Rhagfyr	Gaeaf				
Ionawr					
Chwefror					
Mawrth	Gwanwyn	18 Mawrth - Noson Seryddiaeth	Gŵyl Gerdded Crughywel		
Ebrill		29 Ebrill – Noson Seryddiaeth	1 Ebrill – Darganfod Awyr Dywyll Castell Caeriw	Gŵyl Gerdded Llangollen	'Anturiaethau nos' Lansiad Masnach
Mai		21-22 Mai Gŵyl Wanwyn Sioe Frenhinol Cymru		13-14 Mai Gŵyl Fwyd Caernarfon	

2016 – Parciau Cenedlaethol yng Nghymru – Digwyddiadau Awyr Dywyll/ Nos					
Mis	Tymor	Bannau Brycheiniog	Arfordir Penfro	Eryri	Gweithgaredd/Digwyddiadau Ymgyrch
		27 Mai - Noson Seryddiaeth		29 -30 Gŵyl Stêm Y Friog	'Anturiaethau nos' Lansiad i ymwelwyr
Mehefin	Haf	26 Mai – 5 Meh Gŵyl y Gelli			
		24 Meh – Noson Seryddiaeth			
Gorffennaf		18 – 21 Gorff Sioe Frenhinol Cymru	21 Gorff – Taith Gerdded Ysbrydion Caeriw		
Awst		Eisteddfod Genedlaethol – Y Fenni 18 – 21 Awst – Gŵyl y Dyn Gwyrdd			
Medi	Hydref	17-18 Medi Gŵyl Fwyd y Fenni	15 Medi – Taith Gerdded Ysbrydion Castell Caeriw		
Hydref					'Chwedlau Awyr Dywyll' Lansiad i ymwelwyr a masnach
Tachwedd					

ATODIAD C: CALENDRAU RHAGLENNU – CYSYLLTIADAU TAIR BLYNEDD I CC

Tabl 3 - calendr rhaglennu - 2016 - Blwyddyn o Antur

2016 – Blwyddyn o Antur					
Mis	Tymor	Gwyliau	Digwyddiadau a Sioeau	Gweithgaredd Seryddol	Gweithgaredd/Digwyddiadau Ymgyrch
Rhagfyr	Gaeaf		Mari Lwyd		
Ionawr			25 Ion – Dydd Santes Dwynen		
Chwefror		12-21 Chwef - Hanner tymor	14 Chwef - Dydd San Ffolant		
Mawrth	Gwanwyn		1 Mawrth – Dydd Gŵyl Dewi Gŵyl Gerdded Crughywel	Cyhydros y Gwanwyn	
Ebrill		25 Mawrth – 11 Ebrill – Gwyliau Pasg	4-10 Ebrill - Wythnos Awyr Dywyll Ryngwladol Gŵyl Gerdded Llangollen		1 Ebrill – Darganfod Awyr Dywyll Castell Caeriw 'Anturiaethau nos' Lansiad Masnach
Mai				9 Mai – Symudiad	

2016 – Blwyddyn o Antur					
Mis	Tymor	Gwyliau	Digwyddiadau a Sioeau	Gweithgaredd Seryddol	Gweithgaredd/Digwyddiadau Ymgyrch
		27 Mai -	Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd	anghyffredin o'r blaned Mercher ar draws yr Haul 21 Mai – Lleuad Lawn/Las	Taith Gerdded Nos 'Unwaith yn y Pedwar Amser'
Mehefin		5 Meh – Hanner tymor	Gŵyl y Gelli		
Gorffennaf	Haf	20 Gorff -	Wythnos Genedlaethol Moch Daear Gŵyl Gerdd – Llangollen Sioe Frenhinol Cymru	Hirddydd Haf 4 Gorff – Jwno yn y Blaned lau	Antur Gwawr i Fachlud Taith Gerdded Moch Daear 'Anturiaethau nos' Lansiad i ymwelwyr 21 Gorff – Taith Gerdded Ysbrydion Caeriw
Awst		Gwyliau Haf	Eisteddfod Genedlaethol 12-15 Sffêr Solar Awst Penwythnos Ystlumod Rhyngwladol	12/13 Awst – Cawod Sêr Gwib Perseid Awst 27 – Cydgysylltiad planedau lau a Gwener	Gwersylloedd Sêr Gwib Saffari Pryfed Tân Astroffotograffeg Taith Gerdded Ystlumod
Medi		1 Medi			Beicio Nos
Hydref	Hydref	22 – 30 Hyd – Hanner tymor	31 Hyd - Calan Gaeaf	Cyhydros yr hydref	15 Medi – Taith Gerdded Ysbrydion Castell Caeriw 'Chwedlau Awyr Dywyll' Lansiad i ymwelwyr a masnach Garsiynau arswydus
Tachwedd			5 Tach – Noson Tân Gwylt		Goleufa astro

Tabl 4 - calendr rhaglennu - 2017 - Blwyddyn o Chwedlau

2017 – Blwyddyn o Chwedlau					
Mis	Tymor	Gwyliau	Ddigwyddiadau a Sioeau	Gweithgaredd Seryddol	Gweithgaredd/Digwyddiadau Ymgyrch
Rhagfyr	Gaeaf	16 Rhag – Nadolig	Mari Lwyd	Rhag 13/14 – Cawod Sêr Gwib Geminid Byrddydd y Gaeaf	4 Rhag - Ffair Nadolig Caeriw Nosweithiau Sêr Gwib Nosweithiau Edrych ar Sêr
Ionawr		3 Ion	25 Ion – Dydd Santes Dwynen		Parciau Cenedlaethol Cymru - Wythnos Edrych ar Sêr
Chwefror		18 -26 Chwef - Hanner tymor	14 Chwef - Dydd San Ffolant		Nosweithiau Edrych ar Sêr
Mawrth	Gwanwyn		1 Mawrth – Dydd Gŵyl Dewi Gŵyl Gerdded Crughywel	Cyhydros y Gwanwyn	
Ebrill		7 -24 Ebrill – Gwyliau Pasg	Wythnos Awyr Dywyll Ryngwladol Gŵyl Gerdded Llangollen		
Mai			Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd		

2017 – Blwyddyn o Chwedlau					
Mis	Tymor	Gwyliau	Ddigwyddiadau a Sioeau	Gweithgaredd Seryddol	Gweithgaredd/Digwyddiadau Ymgyrch
Mehefin	Haf	Hanner tymor haf	Gŵyl y Gelli	Hirddydd Haf	
Gorffennaf		21 Gorff –	Wythnos Genedlaethol Moch Daear Gŵyl Gerdd – Llangollen Sioe Frenhinol Cymru		
Awst		Gwyliau Haf	Eisteddfod Genedlaethol Penwythnos Ystlumod Rhyngwladol	12/13 Awst – Cawod Sêr Gwib Perseid	
Medi	Hydref	? Medi		Cyhydros yr hydref	
Hydref		31 Hyd - Calan Gaeaf Hyd – Hanner tymor			'Moroedd Dwfn, Awyr Dywyll' Lansiad i ymwelwyr a masnach
Tachwedd			5 Tach – Noson Tân Gwylt	13 Tach – Cydgysylltiad planedau Iau a Gwener	

Tabl 5 - calendr rhaglennu - 2018 - Blwyddyn y Môr

2018 – Blwyddyn y Môr					
Mis	Tymor	Gwyliau	Ddigwyddiadau a Sioeau	Gweithgaredd Seryddol	Gweithgaredd/Digwyddiadau Ymgyrch
Rhagfyr	Gaeaf	Nadolig	Mari Lwyd	Rhag 13/14 – Cawod Sêr Gwib Geminid Byrddydd y Gaeaf	
Ionawr			25 Ion – Dydd Santes Dwynen		
Chwefror		Chwef - Hanner tymor	14 Chwef - Dydd San Ffolant		
Mawrth	Gwanwyn		1 Mawrth – Dydd Gŵyl Dewi Gŵyl Gerdded Crughywel	Cyhydros y Gwanwyn	
Ebrill		Gwyliau Pasg	Wythnos Awyr Dywyll Ryngwladol Gŵyl Gerdded Llangollen		
Mai		Haf – Hanner tymor	Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd		
Mehefin	Haf		Gŵyl y Gelli		

2018 – Blwyddyn y Môr					
Mis	Tymor	Gwyliau	Ddigwyddiadau a Sioeau	Gweithgaredd Seryddol	Gweithgaredd/Digwyddiadau Ymgyrch
				Hirddydd Haf	
Gorffennaf			Wythnos Genedlaethol Moch Daeaf Gŵyl Gerdd – Llangollen Sioe Frenhinol Cymru		
Awst		Gwyliau Haf	Eisteddfod Genedlaethol Penwythnos Ystlumod Rhyngwladol	12/13 Awst – Cawod Sêr Gwib Perseid	
Medi	Hydref			Cyhydros yr hydref	
Hydref			31 Hyd - Calan Gaeaf		
		Hyd – Hanner tymor			
Tachwedd			5 Tach – Noson Tân Gwylt		

ATODIAD D: GWEFAN ‘PROFI’R TYWYLLWCH’: STRWYTHUR A CHYNNWYS ARFAETHEDIG

- **Tudalen gartref:**
 - Delweddau treigl o weithgareddau ac anturiaethau ynghyd ag is-benawdau bychain priodol – gyda’r is-bennawd cyntaf yn dweud ‘Mae eich antur nos yn dechrau yma...’
 - Ffilm.
 - Ynglŷn â pham a sut mae’r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn gweithio gyda’i gilydd gyda phartneriaid eraill i sefydlu’r genedl ‘Awyr Dywyll’ gyntaf yn y byd!
 - Negeseuon cynaliadwyedd – pwysigrwydd lleihau llygredd golau ar gyfer pobl a bywyd gwylt.
- **Edrych ar sêr:**
 - Y llefydd gorau i weld y sêr yng Nghymru.
 - Map rhyngweithiol ‘Awyr Dywyll’ o Gymru?
 - Mythau a chwedlau awyr y nos.
- **Tudalennau penodol i’r Parc x 3 (PCBB / PCAP / PCE)**
 - Delweddau treigl o weithgareddau ac anturiaethau mewn lleoliadau parc penodol adnabyddadwy.
 - Cyflwyniad i Barc Cenedlaethol ‘X’.
 - Prif fannau i edrych ar sêr.
 - Gweithgareddau ac anturiaethau Parc-benodol.
 - Amserlenni dydd/nos a awgrymir.
- **Gweithgareddau ac anturiaethau (rhestr ddrafft)**
 - Delwedd benodol gweithgaredd/antur ac is-bennawd priodol.
 - Anturiaethau nos
 - Seryddiaeth
 - Digwyddiadau Seryddiaeth
 - Nosweithiau sêr cynffon/ sêr gwib
 - Dweud straeon, mythau a chwedlau
 - Teithiau trên yn y nos
 - Astroffotograffeg
 - Gwylio’r wawr/machlud
 - Gwersylla dan y sêr
 - Gwylio moch daear
 - Teithiau cerdded ystlumod
 - Antur pryfed tân
 - Beicio mynydd
 - Teithiau cerdded yn y nos/gyda’r hwyr
 - Rhedeg ar hyd llwybrau mynyddig/brynau
 - Gwybodaeth ddiogelwch
- **Masnach dwristiaeth**
 - Cyfleoedd i dyfu eich busnes twristiaeth drwy ymgysylltu â’r fenter ‘Profi’r Tywyllwch – Parciau Cenedlaethol Cymru’.
 - Dod yn ‘Arloeswr Profi’r Tywyllwch’
 - ‘Anturiaethau Nos’- Llawlyfr Masnach Twristiaeth.

- Awgrymiadau i leihau llygredd golau.
 - Newyddion
- **Dolenni a Chyfryngau Cymdeithasol**
 - Dolenni
 - Cymdeithas Awyr Dywyll Rhyngwladol
 - Partneriaeth Darganfod Awyr Dywyll
 - Ayb.
 - Blog 'Anturiaethau Nos'
 - Facebook
 - Twitter
- **Cyswllt**

Profi'r
Tywyllwch
Cymru

TACP (UK) Ltd

10 Park Grove, Cardiff
CF10 3BN

E: admin@tacp.co.uk T: 02920 228966

